

ECO'R WYDDFA

Rhif 122

CHWEFROR 1987

Pris 20c

☺LWYNION☺ AMGYLCH CYMRU



Morgan Parry o Lanberis (chwith) a Martin Ashby fydd yn reidio beics o amgylch Cymru yn ystod Chwefror.

TEITH BEICIO WYTHNOS CYMRU DDI-NIWCLIAR

Y mae dau o aelodau CND Cymru yn bwriadu teithio ar hyd arfordir Cymru ar gefn beiciau yn ystod mis Chwefror. Yn ystod y daith gobeithiant dderbyn cefnogaeth ariannol trwy gael eu noddi ac hefyd fanteisio ar y cyfle i ledaenu'r neges trwo gynnal cyfarfodydd a sesiynnau trafod.

Bydd y daith yn dechrau ar y 13eg o Chwefror ym Mreudeth a bydd y ddau yn ymlwybro ar hyd arfordir y gorllewin, i'r gogledd ac i lawr ar hyd ffin ddwyreiniol Cymru, er mwyn dychwelyd i Freudeth ar hyd arfordir y de erbyn yr 28ain o Chwefror.

Ar y 28ain o Chwefror cynhelir rali yn Nhŷ Ddewi a drefnir gan CND Cristnogol Dyfed. Trefnir gwasanaeth am 11.00 o'r gloch, rali am 1.00 o'r gloch a chyfnod o wylidwriaeth ym Mreudeth rhwng 3 a 4 o'r gloch. Ymhlith y siaradwyr bydd y Dr Meredydd Evans, yr Athro D P Davies, y Parch D R Thomas, Sian Ap Gwynfor, ac Olwen Davies. Bydd lle canolog yn y gweithgareddau i gerddoriaeth a chân, ac yn ystod y rali ceir y cyfle cyntaf i wrando ar gân sydd wedi ei chyfansoddi yn arbennig ar gyfer y

mudiad heddych gan Delwyn Sion.

Cefnogwch Morgan Parry a Martin Ashby ar eu taith beicio o gwmpas Cymru. Y mae Cymorth Cristnogol a 'War on Want' wedi cyd-weithredu yn y trefniadau ar gyfer y daith, a bydd yr arian a gesglir ar y daith yn cael ei rannu gyda'r ddau fudiad yma.

Y mae Morgan a Martin wedi ymdynghedu i gyflawni'r daith beth bynnag fo'r tywydd. Manteisiwn ar y cyfle i genfogi eu menter a ledaenu'r neges. Mae Cymru yn wlad ddi-niwcliari, mae angen byd di-niwcliari. Er mwyn cyflawni hynny y mae angen mudiad heddych sy'n weithredol ac sy'n denu cefnogaeth pobl Cymru. Dewch i'r cyfarfodydd, cefnogwch y daith, noddwch Morgan a Martin, uniaethwch â'r Mudiad Heddych yng Nghymru.

DYMCHWEL PONT?



Mae'r bont uchod sy'n cario ffordd Llanrug-Bethel dros wely'r hen reilffordd Brydeinig ger y Crawia wedi bod yn gur pen i'r rawdurdodau ers amser maith, a dadlau wedi bod ynglŷn â'i pherchnogaeth. Mae'r ffens ar un ochr iddi wedi bod yn creu problemau oherwydd ei gyflwr bregus. Bellach, deallwn fod trafodaethau rhwng Y Rheilffordd Brydeinig a Chyngor Sir Gwynedd ynglŷn â dyfodol y bont. Pwy o wŷr nad llun i'r golofn hanes fydd hwn mewn amser.

CYLCH O ARIAN O AMGYLCH YSGOL



Gari Williams, y digrifwr, a rhai o blant yr ardal, yn cychwyn ar y dasg o osod cylch o arian o amgylch Ysgol Cwm y Glo i godi arian i Gronfa Sganiwr y pentref. Fel y gwelir, cynhaliwyd y gweithgaredd yn ystod yr eira trwm, a bu'n rhaid clirio buarth yr ysgol er mwyn cael lle i osod yr arian! Ond bu'r ymdrech yn llwyddiannus, oherwydd gosodwyd dwy gadwyn, a chasglwyd y swm o £171.

RHEDEG I GYMRU



Ar Ionawr 24ain, daeth Paul Grant, 15 oed, o Lanrug yn 8fed mewn Ras Traws Gwlad yn cynrychioli Gymru mewn cystadleuaeth yn erbyn y Fyddin i ddynion dan 19 oed. Dyma'r tro cyntaf iddo gynrychioli ei wlad, ac y mae gyrfa ddisglair o'i flaen ym myd rhedeg. Ar Ionawr 31ain bydd yn cynrychioli Gogledd Cymru mewn Pencampwriaeth Rhedeg Traws Gwlad Siroedd Prydain yn Derby. Mae bellach yn rhedwr traws gwlad profiadol ac y mae eisoes wedi ennill gwobr pum seren yr AAA. Dyma'r wobwr uchaf sy'n bosibl ei hennill. I gyrraedd y safon roedd angen 170 o bwyntiau. Sgoriodd Paul 181.

ECO'R WYDDFA

RHIF 122
CHWEFROR

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhytal, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIAN: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd: **BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glarafor (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
CHWEFROR 26ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
CHWEFROR 17eg
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CEISIO GWYBODAETH

Annwyl Syr,

Fy mwriad yw cyhoeddi llyfr ar sefydlu rheilffordd yr Wyddfa ac o'r herwydd byddwn yn ddiolchgar tros ben o gael benthg hen luniau sy'n gysylltiedig â'r cwmni a'r rheilffordd, yn arbennig fellu luniau o'r cyfarwyddwyr cynnar, Syr Douglas Fox, neu seremoni torri'r dywarchen gyntaf. Yn ogystal, os yw rhywun o'r ardalwyr yn cofio hen benillion neu unrhyw stori am ddyddiau cynnar y lein — hanesyn wedi'i drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall efallai — yna byddwn yn dra diolchgar pe byddent yn cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod.

Yn hyderus
Rol Williams

Arwyn

5 Pant y Waun
Waunfawr.

(Ffôn: Waunfawr 457)

Annwyl Olygydd a Darllenwyr Eco'r Wyddfa,

Bum mor ffodus yn ddiweddar ag ennill ysgoloriaeth y Dr Sam Jones, gwobr a roddir i un o aelodau staff y BBC ym Mangor yn flynyddol o hyn allan i gofio'r gŵr a oedd yn gymaint o arloeswr ym myd darlledu Cymraeg. Eleni fe ofynnwyd i ymgeiswyr gyflwyno cynllun a fyddai'n mynd â nhw i wlad bell i astudio pwnc o ddiddordeb diwylliannol.

Mynd i'r Unol Daleithiau i ymchwilio i hanes Cymro ifanc o Lanrug a fu farw yn Rhyfel Cartref America oedd fy newis gynllun i, a hwnnw a wobrwyyd. Mi fydda i'n cael mynd yn o fuan, felly, i astudio gyrfa John Griffith Jones o Fryn y Fedwen, Llanrug, a dilyn ei anturiaethau yn Company 'G' y 23rd Wisconsin Volunteers. Erbyn dydd ei farw ar Hydref y pumed 1864, mewn brwydr ger Jackson, Louisiana roedd y Cymro hwn wedi ymladd mewn nifer o frwydrau ffyrnig gan gynnwys Vicksburg a Chickasaw Bluffs. Ysgrifennodd tua phedwar ugain o llythyrau at ei rieni yn adrodd hanes y brwydro, a gweld copiau o'r rhain yn Archifdy Gwynedd a ddenodd fy sylw i gyntaf.

Ganed John Griffith Jones ym Mryn-y-Fedwen, sydd bellach yn adfail, yn 1843, ac y mae'n debyg iddo ymfudo ym mreichiau ei fam a'i dad i Salem, Wisconsin, ag yntau'n fabi. Mae'r Parchedig John Eiddon Jones yn sôn yn ei "Hanes Achos Crefyddol y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanrug" am nifer helaeth yn ymfudo o Lanrug yn ystod 1844 neu ddechrau 1845.

"O Gaernarfon yr oeddent yn hwylio, yn llong Mr John Owen, Tycoc, llong hwyliu wrth gws, ac yr oedd y fordaith yn hir iawn yn y dyddiau hynny. Yr oedd ymadawiad y fath nifer o'r gymdogaeth yn destun galar mawr a digalondid."

Bum yn chwila'n bur ddyfal yn Archifdy'r Cyngor Sir yn ddiweddar a chael hyd i gryn lawer o wybodaeth am y teulu, ond mi hoffwn wybod mwy, wrth reswm. Tybed a oes yna rai o ddarlennwyr yr Eco yn ddisgynyddion i John Jones, Bryn y Fedwen, taidd John Griffith Jones? Bu John Jones, y taidd, farw oddeutu'r un amser a'i ŵyr.

Mae Mrs Phyllis Ferry o East Newton, Milwaukee, perchennog y llythyrau gwreiddiol, wedi addo fy

nghyflwyno i or-wyrion a gor-or-wyrion brodyr a chwiorydd John Griffith Jones, felly mi ddylai fod gennyf goeden deuluol go fawr i'r teulu hwn erbyn cwblhau yr astudiaeth.

Mi fydda i'n ddiolchgar iawn i unrhyw un fedr gysylltu â mi. Y cyfeiriad yw "Penygraig", Waunfawr, a'r rhifau ffôn Waunfawr 592 (adre) neu Bangor 362214 (gwaith).

Yr eiddoch yn gywir,
Rhodri Prys Jones.



Llun o J G Jones o Lanrug.

TRYDAN CEFN GWLAD

Annwyl Olygydd,

Trydan i Gefn Gwlad Cymru

Aeth deng mlynedd ar hugain heibio ers dyfod trydan i gartrefi y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig Cymru, ac mae'n siŵr fod y gwagedd iau sy'n cadw tŷ heddiw yn cael trafferth dychmygu pa mor anodd oedd hi i gadw tŷ heb yr holl gyfarpar trydan sydd ar gael i'w cynorthwyo.

Mae'n rhan o waith Amgueddfa Werin Cymru i gofnodi'r newidiadau pwysig sydd wedi dylanwadu ar fywyd beunyddiol pobl Cymru, ac mae'n debyg nad oes yr unpeth wedi newid cymaint ar fywyd cefn gwlad na dyfodiad trydan. Er mwyn cofnodi effeithiau'r newid hwn gosodais gystadleuaeth yng ngholofnau'r papur hwn a rhai eraill, ac erbyn hyn yr wyf wedi cael cyfle i feirniadu yr atebion.

Yr oedd yr holl atebion yn cynnwys gwybodaeth a fydd o bwys mawr wrth grynhoi darlun o effeithiau

trydan ar yr ardaloedd gwledig. Mewn sawl llythyr cafwyd atgofion byw iawn o effeithiau y newid hwn ar fywyd bob dydd ac yr oedd yn anodd penderfynu ar un enillydd. Yr oedd dau llythyr yn sefyll allan yn arbennig, ac felly rwyf wedi penderfynu dyfarnu gwobr o £10 yr un i Mrs E M Jones o Lanbedr Pont Steffan a Mrs L Jones o'r Parc ger Y Bala.

Cyflogwyd Mrs E M Jones fel 'demonstrator' gan SWEB o 1949 ymlaen, gyda'r gwaith o esbonio i wragedd tŷ sut i ddefnyddio'r offer trydan newydd megis ffyrnau, peiriannau golchi a glanhawyr, a chael trafferth mawr i'w hargyhoeddi (neu'n amlach eu gwŷr!) am fanteision trydan. Cofiai'r troeon trwstan fel y wraig tŷ brysur oedd ag oergell nesaf at ei ffwrn, ac a roddodd ei chacen Nadolig i grasu yn yr oergell am bedair awr! Cofnododd Mrs L Jones yn fanwl iawn y drefn y daeth offer trydan i'r ffermdy a'r newid a ddaeth i fywyd ei theulu yn ei sgil. Daeth trydan i'r fferm yn 1964 a gall Mrs Jones gofio'r pris a dalodd am bob teclyn a brynodd o hynny hyd heddiw.

Llongyfarchiadau i'r ddwy, a diolch i bawb a ychwanegodd at ein gwybodaeth fel hyn.

S Minwel Tibbot (Mrs)
Is-Geidwad

Adran Adeiladau a Bywyd Cartref
Amgueddfa Werin Cymru

CÂN I ERYRI

Annwyl Olygydd,

Tybed a wnewch chi ganiatau i mi ddefnyddio'ch colofnau ar gyfer "hysbys" all ddod â cheiniog dderbyniol i boced un neu ddau o'ch gwrandawyr dawnus? Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n cynnal dwy gystadleuaeth all apelio atynt — dwy gystadleuaeth hollol wahanol ond ar yr un testun.

Y gyntaf yw cyfansoddi CÂN I ERYRI. Gall hon fod yn gân bop neu'n gân i'w chanu gan gôr plant neu ieuencid. Gwobr £150, ail wobwr £100. Dyddiad cau Ebrill 15, 1987.

Y gystadleuaeth arall yw CYFRES O SLEIDIAU LLIW A THÂP CASET (dim mwy na deng munud) yn portreadu Parc Cenedlaethol Eryri. Gwobr £125 a £75. Dyddiad cau Mehefin 25.

Mae ffurflenni cais a gwybodaeth bellach i'w cael o Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth. Curwch tra bo'r haearn yn boeth — anfonwch am ffurflenni ar unwaith. Pwy ŵyr na fydd eich cân ar ben y siartiau'n fuan. Ac allan â'r camera yna i ddal harddwch a hynodrwydd amgylchedd arbennig y Parc.

Gobeithio y cawn ninnau gyfle i wneud defnydd o oreuon y ddwy gystadleuaeth yn Eisteddfod Porthmadog.

Hai ati!

A phob hwyl,
Alan Jones

Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU MEDAL SYR THOMAS PARRY-WILLIAMS ER CLOD, 1987

Rhoddir y fedal uchod i gydnabod ac anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth, yn arbennig trwy weithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gwahoddir enwebiadau ar gyfer y fedal sydd i'w chyflwyno yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 1987.

Y mae ffurflenni enwebu a manylion pellach i'w cael oddi wrth y Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol, 10 Park Grove, Caerdydd, CF1 3BN (Ffôn: (0222) 394120) a dylid eu dychwelyd erbyn Ionawr 31ain, 1987.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

APELIO

Annwyl Olygydd,

Go brin bod angen atgoffa'ch darllenwyr fod y Swyddfa Gymreig ar hyn o bryd yn "gwahodd barn" pobl Cymru ar fater Deddf Iaith Newydd. Ond hyd yn hyn ychydig iawn sydd wedi mynd i'r drafferth i roi pin ar bapur i gefnogi'r alwad am Ddeddf sy'n gwbl angenrheidiol i sicrhau dyfodol yr iaith. Eisoes rhoddwyd sylw mawr i wrthwynebiad ambell i Gyngor Lleol o Went, a dadleuon negyddol y meddyg o Aberystwyth a'i "Fudiad" dychmygol.

Mae rhesymau'r Swyddfa Gymreig dros "fynd at y bobl" yn amlwg. Wedi'r cyfan, chawsom ni mo'r cyfle i fynegi barn ar, dyweder, ganiatau taflegrau Cruise i wledydd Prydain, neu ddefnyddio'r meysydd awyrennau i lansio'r cyrch bomio ar Lybia neu adeiladu bynceri niwclear i awdurdodau lleol, nac ar gant a mil o bynciau a gonstiodd yn ddrud i'r trethdalwr. Ond mae'r iaith Gymraeg yn wahanol. Dyma bël ddefnyddiol i'w thafu i'n plith i'w chicio'n ddirugaredd o Went i Wynedd ac yn ôl. Cyfle arall i yrru'r Cymry ben-ben â'i gilydd tra bo'n cymunedau'n dadfeilio a'r pleidiau'n hagi arfae ar gyfer etholiad cyffredinol.

Ond tra'n bod yn cael ei llywodraethu o Lundain, ni allwn ddisgwyl dim amgenach. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw ein bod yn dangos y gefnogaeth i Ddeddf Iaith ar ei gryfaf — gan gofio bod Mesur Dafydd Wigley eisoes wedi derbyn cefnogaeth gan rai aelodau o bob plaid wledyddol, a drafft Mesur yr Arglwydd Gwilym Prys Davies yn rhoi dewis ar nifer o bwyntiau a all fod yn y Ddeddf newydd. Gellir cael crynodeb o brif bwyntiau'r ddau fesur, os dymunir, o swyddfa Plaid Cymru, 51 Heol y Gadeirlan (Cathedral Road), Caerdydd CF1 9HD, a byddai hyn yn arbennig o fuddiol i rai sy'n aelodau o bwyllgor, corff neu gymdeithas sydd am drafod y mater.

Mae'n bwysig i unigolion anfon llythyr syml o gefnogaeth, a gorau oll os gellir rhoi enghraifft bersonol o fethu cael ffurflen yn Gymraeg, neu wasanaeth Gymraeg, neu addysg Gymraeg i'w plant, wrth wneud hynny. Ond mae'n bwysig hefyd i roi'r ddadl gadarnhaol y dylai Deddf Iaith roi statws gyflawn i'r Gymraeg, gyda dilysrwydd gyfartal llwyr â'r Saesneg, a hawliau llawn i Gymry sy'n dymuno byw eu bywyd drwy'r Gymraeg. Dylem hefyd gael unrhyw gorff neu gymdeithas yr ydym yn aelodau ohonynt i anfon llythyr o gefnogaeth. I'r rhan helaeth o'r cyrff hyn, ni fyddai Deddf Iaith newydd yn golygu gwario'r un geiniog ychwanegol. I gyrff megis Cyngorau a swyddfeydd sy'n darparu ffurflenni i'r cyhoedd, cymharol fychan fyddai'r gost o'u hargraffu'n ddwy-ieithog, gyda

chynllunio a chysodi doeth a gofalus. Mae Mr Ioan Bowen Rees o Gyngor Gwynedd wedi codi pwynt perthnasol iawn serch hynny, sef na ellid disgwyl i bob corff fedru cydymffurfio â holl ofynion Deddf Iaith dros nos, a'r tebyg yw y bydd angen nodi cyfnod i'w galluogi i baratoi ar gyfer hyn yn raddol. Hawdd iawn yw gor-bwysleisio cost ac anhawsterau ar adeg fel yma, yr hyn sydd ei angen fwyaf yw ewylllys nid arian. Ond ai mewn arian y mae mesur gwerth ein hiaith? Ysgrifennwch heddiw, da chi, i Adran Gwasanaethau Addysg 3, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NQ.

Yn gywir,
Dafydd Iwan
Y Gilfach
9 Heol Edward
Caernarfon.

O.N. Rhaid anfon y llythyr i'r Swyddfa Gymreig cyn diwedd Mawrth!

RHYDDHAU FFRED FFRANSIS

Annwyl Olygydd,

Rhyddhau Ffred Ffrancis
Ar Chwefror 27, bydd Ffred Ffrancis yn cael ei ryddhau o garchar wedi treulio deddfyd o naw mis dan glo. Carcharwyd Ffred Ffrancis am ei safiad dros GORFF DATBLYGU ADDYSG GYMRAEG fydd yn rhoi'r lle dyledus i'r Gymraeg yn ein hysgolion. Ond mae gwaith i bob un ohonom ei wneud. Gwyr pawb ohonom am ddiffygion mewn addysg Gymraeg — mae miloedd o enghreifftiau drwy Gymru gyfan. Os oes gennych chi enghraifft o ddiffyg addysg Gymraeg, fydddech chi yn cysylltu â mi?

Wythnos gyntaf Mawrth, bydd Ffred Ffrancis yn annerch cyfres o gyfarfodydd led-led Cymru, i gasglu tystiolaeth am broblemau addysg Gymraeg. Pa ffordd well i ddathlu dydd gŵyl Dewi, na chefnogi'r cyfarfodydd hyn, a chyflwyno eich tystiolaeth chi? Bydd y cyfarfod agosaf i'ch dalgylch chi yn:

Canolfan Waunfawr
Pnawn Sadwrn, Chwefror 28
am 2 o'r gloch

Bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn casglu'r holl enghreifftiau hyn at ei gilydd a'u cyflwyno i'r Swyddfa Gymreig mewn rali, fel prawf o'r angen am Gorff i Datblygu Addysg Gymraeg. Bydd y rali yn cael ei chynnal am 12.00am o flaen y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd ar Sadwrn, Mawrth 7fed. Y prif siaradwr yno fydd Ffred Ffrancis, — dowch yno i ddangos eich diolch iddo, ac i barhau i bwysu am addysg Gymraeg i'n plant.

Angharad Tomos

Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CYSTADLEUAETH Y 'DOLIG



Yr enw cyntaf allan o'r het gyda'r atebion cywir oedd Mrs J M Jones, Ger y Ffynnon, Tal y Bont, Llanrug.

Dyma'r atebion:

1. Segurdod yn ffatri Glynrhonwy (Mehefin); 2. Bywiogrwydd Ysgol Brynrefail (Mehefin); 3. Difetha dau fwthyn — Cae Goronwy (Hydref); 4. Malurio ffenestyr Eglwys Llanrug (Tachwedd); 5. Crefftwyr Cywrain (Gorffennaf-Awst); 6. Eisteddfod Gwaun Gynfi (Tachwedd); 7. Eisteddfod Llanrug (Tachwedd); 8. Tymor y Carnifalau (Gorffennaf-Awst).

YR ANGEN AM Y SGANIWR

Annwyl Olygydd,

Hyfrydwch oedd darllen llythyr Mr Gwilym Owen Williams a Mr Lleufer O Pritchard yn Eco'r Wyddfa ym mis Rhagfyr, yn nodi ymdrechion pobl Waunfawr i gasglu arian at Apêl y Sganiwr, Ysbyty Gwynedd.

Fodd bynnag, 'rwyf yn synhwyro o ddarllen eu llythyr nad yw Cyngor Cymuned Waunfawr wedi newid eu barn ynglŷn â chyfrannu at y Sganiwr. Yn unol a'u datganiad yn Eco'r Wyddfa, Tachwedd 1986, tud. 14. Ys dywed y Cyngor:

"Ni fydd y Cyngor yn cyfrannu tuag at Apêl y Sganiwr Corff gan mai teimlad yr aelodau oedd mai cyfrifoldeb y Llywodraeth oedd darparu gwasanaeth mor bwysig."

Afraid yw imi wneud sylwadau ymhellach ynglŷn â'r penderfyniad hwn gan i mi eisoes wneud hynny mewn llythyr i'r Eco.

Yn ddiweddar, bum yn darllen llythyr Joan Stockdale, "The Diary of a Privilege."

Y mae'r llythyr ar ffurf dyddiadur, yn adrodd hanes brwydr Joan yn erbyn cancer.

Ys dywed y 'Postscript' i'r llythyr hwn:

"Had there been a Whole Body Scanner in Ysbyty Gwynedd, Joan and other patients like her would not have had the agony of travelling to the Wirral for accurate diagnosis. Joan would never have had to go through the experience of being told, 'We thought you were going to die, but we were wrong, and you will live.'"

Y mae profiadau dirdynol Joan a phobl gyffelyb iddi hi yn cadarnhau'r alwad am Sganiwr ar fyrder i Wynedd ac y mae pob ymdrech i wireddu'r alwad, yn ganmoladwy.

Fel y gwyddys, y mae pobl Waunfawr wedi ymateb yn ardderchog i Apêl y Sganiwr Ysbyty Gwynedd.

Hyderaf yn fawr y bydd Cyngor Cymuned Waunfawr yn dilyn eu

hesiampl ac yn cyfrannu o'u coffrau hwy tuag at yr Apêl.

Yn gywir,
John Morris,

Annedd Wen, Tal y Bont, Llanrug.
Gweinidog yr Efengyl; Cyngorydd Cymuned; Cadeirydd Pwyllgor Apêl Sganiwr Llanrug ac Aelod o Bwyllgor Apêl Sganiwr Arfon.

CEFNOGWYR Y NANT

Annwyl Gyfeillion,

Bydd y mwyafrif ohonom mae'n debyg yn dathlu dydd ein Nawddsant Dewi mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Bydd cannoedd, neu filoedd o gymdeithasau o bob math ledled Cymru yn trefnu rhyw weithgaredd priodol tua'r amser yma.

Tybed a gaf i fanteisio ar y cyfle i wahodd y cymdeithasau hyn i ystyried apêl Cefnogwyr y Nant? Ein nod yw codi £10,000 i dalu am baratoi tŷ i'r methodig yn Nant Gwrtheyrn. Eisoes codwyd £4,500 ers sefydlu'r gronfa fis Mai diwethaf. Buasem yn hynod o falch o gael cyfraniadau gan gymdeithasau Cymru i yrru'r gronfa yn ei blaen.

Ar ein prifachlysur Cymreig a oes gwell ffordd o fynnu dyfodol i'n hiaith. Mae llwyddiant dysgwyr y Nant yn galonddid mawr i ni i gyd, ac mae gwir angen paratoi adnoddau yno i'r methodig.

Hyderaf y bydd ysbryd Dewi yn ysgogiad ffrwythlon i'n hapêl.

Yn gywir
Moi Parri (Ysgrifennydd)
Golygfan,
Ffordd Golch
Lôn Celyn
Carmel

TREFFYNNON Clwyd
Ffôn: Treffynnon 713603

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

Y SEINDORF: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Seindorf ar yr 11eg o Ionawr. Yn y gadair: Mr Gwyn Oliver Jones. Agorwyd y Cyfarfod trwy ddarllen y fantolen am 1986 wedi ei archwilio, a chafwyd yn gywir.

Aethpwyd ymlaen i godi pwyllgor am 1987. Yr oedd angen un aelod newydd ar y pwyllgor, oherwydd colli'r diweddar Arthur Owen, Stryd Newydd yn ystod y flwyddyn. Cydymdeimlwyd yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

Penderfynwyd ail ethol y pwyllgor presennol am flwyddyn arall, ac etholwyd Mr Wyn Hughes, Tyn-y-Weirglodd fel aelod newydd.

Y swyddogion am y flwyddyn nesaf fydd:

Llywydd - Mr G Oliver Jones, Deiniolen; Ysgrifennydd - Mr Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-Bont; Trysorydd - Mr Hefin G Jones, Llanrug; Arweinydd y Seindorf - Mr Meurig Parry, Llanrug; Arweinydd Proffesiynol - Mr Nicholas Childs, Gimthorp Colliery Band, Swydd Efrog; Llyfrgellydd - Mr Colin Williams a Mr Joe Annidi; Gofalwr: Mr Thomas Williams.

Hefyd rhaid oedd llongyfarch y Band Bach a'r rhai fu yn eu hyfforddi, sef Mr D Williams, 1 Pentre Helen a Hefin G Jones. Buont mewn llawer o gyngherddau ond uchafbwynt y flwyddyn oedd Cystadleuaeth Cei Cona ym mis Tachwedd. Pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Pasiwyd yn unfrydol fod y Seindorf i gystadlu mewn chwe cystadleuaeth yn ystod y flwyddyn nesaf sef:

Pencampwriaeth Blackpool ar Fawrth 29; Pencampwriaeth Pontin, Southport ar Ebrill 17; Wm Rimmer Memorial, Southport ar Fai 23; Eisteddfod Porthmadog ar Awst 1; Colwyn Bay Entertainment ar Fedi 19 a Chystadleuaeth Cei Cona ar Dachwedd 21.

DIOLCH: Dymuna'r Seindorf a'r Pwyllgor ddiolch i ardalwyr Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-Bont am eu cyfraniad o £78.00 a gasglwyd gan y Seindorf pan fuont yn chwarae carolau o gwmpas yr ardaloedd hyn yn ystod gwyliau'r Nadolig. Bydd yr arian yn mynd tuag at Apêl y Sganiwr, Ysbyty Gwynedd.

ENILLWYR CLWB 200 Y SEINDORF AM FIS IONAWR:

1. £20: Mrs Betty Roberts, Maes Eilian, Dinorwig.

2. £15: Mr I Morris, 5 Tai Cynfi;

3. £10: Mr Elfed Williams, 12 Stryd Deiniol.

Cofiwch am y Bingo bob nos Wener yn y Band Room am 8.00

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ragfyr 1af, dan arweiniad y llywydd Mrs Rita Parry Jones.

Croesawyd Mrs Maud Williams, Caernarfon, y VCO a dwy chwaer arall o Gaernarfon fel cynorthwyyr.

Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol. Darllenwyd cofnodion am y flwyddyn gan Mrs Marian Williams, yrysgrifennydd a chafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Gwen Hughes, y trysorydd. Swyddogion a phwyllgor ar gyfer 1987 fydd: - Llywydd - Mrs Rita Parry Jones; Is-lywydd - Mrs J Eirlys Williams; Ysgrifennydd - Mrs Beti Wyn Davies; Trysorydd - Mrs Glenys Williams;

Pwyllgor: Mrs Eirlys Lloyd Jones; Mrs Marian Wyn Williams; Mrs Marian Williams; Mrs Beryl Hughes; Miss Beti Williams; Mrs Eirian Jones.

Diolchwyd i Mrs Williams a'i chynorthwyyr gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Enillydd y raffl oedd Mrs Nancy Rowlands. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 2il, gyda Miss Jean Maellen yn dangos sleidiau.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yn Nhŷ Golchi, nos Sadwrn, 13 Rhagfyr. Cafwyd noson ddifys a chartrefol yng nghwmni Huw Edward Jones a'i chwaer Nia, o Borthaethwy a chafwyd eitemau ychwanegol gan Deulu Tŷ'r Ysgol. Arweinydd y noson oedd Mr Gwyn Parri.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Marren, Plas Eryr, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 88 oed ar 13 Rhagfyr. Roedd Mrs Marren ymhlith aelodau cyntaf y gangen yn Neiniolen.

Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr oedd:

£10 - Mrs Betty Hughes, Cringae;

£8.50 - Mr Albert Parry, 45 Pentre Helen.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLEN: Fe

H R JONES (Plaid Cymru) Deiniolen

Mae gwreichion y marwydos wedi cynnal yn fflam, A'r chwyldro o'r diwedd yn ymestyn ei gam! A phobol Deiniolen wedi deffro yn awr, Wrth i'r haul dros y Marchlyn oleuo y wawr.

A'r cwbbwl oherwydd dy ymdrech mor deg, Dy lafur mor gyson yn ddi-gwyn a dirêg; Dy frwydr a'th iechyd, dy amynedd di-ball, Dy egni syfrdanol, a'th weledigaeth mor gall!

Fe ffurfiaist ein Plaid, yr orau'n y byd! Meithrinaist hi'n annwyl, fel baban mewn crud!! A hithau a dyfodd yn eneth mor hardd, Mor driw ei chymeriad, yn wrthrych pob bardd!!

Ac er dy fod heddiw yn cysgu'n y pridd, Mae'th eiriau a'u hystyr yn cerdded y ffridd; H R y gwerinwr, rhaid canu dy glod, Ac 'rwyn diolch i Dduw 'mod i'n canlyn dy dro'd!!

John V Morris,
Rhianfa,
Deiniolen

hir gofir gan y gynulleidfa luosog oedd yn bresennol yng nghapel Ebenezer, y Gwasanaeth Nadolig a gyflwynwyd yno ar nos Sul, 21 Rhagfyr gan ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar wedd ysbyrdol y Gwasanaeth, a llwyddodd y plant, yn unigolion a phartion, i gadw hynny mewn golwg yn eu cyflwyniad gan beri i'r Gwasanaeth fod yn arweiniad teilwng i Wyl y Geni.

Casglwyd £72.80 yn y Gwasanaeth ac fe drosglwyddwyd y swm hwnnw i goffrau'r apêl leol at Sgannydd Corff Ysbyty Gwynedd.

'PANEL PENTREF DEINIOLEN: Cyfarfu'r Panel uchod ar nos Lun, 19 Ionawr, pryd y trafodwyd nifer o lythyrau a dderbyniwyd yn ddiweddar.

Yn eu plith roedd llythyr oddi wrth Gyngor Bwrdeisdref Arfon yn adrodd fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 22 Rhagfyr 1986 wedi penderfynu parhau i ddefnyddio Hostel Noddfa er lletha teuluoedd digartref mewn argyfwng. Bellach mae'r Panel yn pwysu am gyfarfod ar fyrder gyda swyddog perthnasol y Cyngor a Warden yr Hostel i drafod ac ymhelaethu ar rai trafferthion lleol yn tarddu o'r Hostel.

Newydd da i'r Panel oedd llythyr o'r Cyngor Sir yn adrodd bod cynllun ar droed i ledur ffordd ym Mhenbwllch a graddio'r tir yn ôl. Bu archwiliad gan Syrfeur y Sir ar y waliau cynnal rhwng Galttyfoel a Deiniolen, ac addewir y cânt sylw fel bo'r angen ym 1987-88.

Bu'r Panel yn trafod Drafft y Cynllun Arfon Wledig fel y mae'n ymwneud â Deiniolen, a chytunwyd ar y sylwadau anfonwyd at Gyngor Arfon ar y Cynllun Drafft.

Bwriedir cynnal Cyfarfod Cyhoeddus arall yn ystod Mawrth-Ebrill nesaf - bydd hysbyseb am hynny yn ymddangos yn yr Eco mewn llawn bryd. Yn y Cyfarfod hwnnw hyderir ystyried o'r newydd y priodoldeb o gynnal Cystadleuaeth Stryd Daclusaf Deiniolen ym 1987, yn

ogystal â chyflwyno adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed codi Ganolfan Aml Bwrpas newydd yn y pentref.

LLONGYFARCHIADAU i Martin Llewelyn, Pen-y-Golwg, am lwyddo gydag anrhydedd mewn arholiad piano, Gradd 1.

DIOLCH: Dymuna Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Nellie a Bill Close, 16 Maes Gwylfa, ddiolch o galon i'r genod a'r hogiau, perthnasau a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Cariad mawr genod - Mam a Dad.

Dymuna Yvonne Jones, 11 Stryd Newydd ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Ionawr 6ed.

Dymuna Alun Wyn Evans a Laura, 55 Pentre Helen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs G A Maxwell ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, sef Jack Maxwell yn ddiweddar. Diolch i bawb.

Dymuna Linda Wyn, 20 Pentre Helen, ddiolch i'w theulu a chymdogion a chyfeillion am y rhoddion a chardiau a gafodd ar lwyddo ynei arholiad Piano.

CYMDEITHAS UNDEBOL CHWIORYDD YR OFALAETH: Ar nos lau, 4ydd o Ragfyr, fe gynhaliwyd cyfarfod Ndolig yn Festri Disgwylfa.

Treuliwyd y rhan arweiniol o'r cyfarfod mewn Gwasanaeth Nadolig, o dan ofal y Llywydd Mrs Miriam Lewis, pryd y cymerwyd rhan gan nifer fawr o'r chwiorydd.

Ar ôl terfyn y gwasanaeth fe gafwyd sŵel "Moes a Phryn" ac fe godwyd elw tuag at Ymdrech y Chwiorydd.

I ddiweddu'r noson fe gafwyd Swper Nadolig, gyda phawb o'r chwiorydd wedi cyfrannu tuag at yr ymborth.

Anfonir cofion cynnes tuag at bawb sydd yn wael eu hiechyd gan ddymuno blwyddyn newydd well iddynt.

Terfynwyd y cyfarfod gyda'r fendith. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos lau, Chwefror 5ed, 1987.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, claciau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu a thrwsio Teledu Lliw Newydd ac Fel Newydd GWASANAETH ATEB FFÔN 24 AWR LLANBERIS 870545



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:

LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

YN DAWEL a sydyn yn ei gwsg ar 29ain o Ragfyr, bu farw William Samuel "Wil Sam" Griffith, o Arwel, 6 Rhes Victoria, yn 79 mlwydd oed.

Magwyd ef yng Nghlwt y Bont, ac roedd yn bel-droediwr medrus iawn yn ei flynyddoedd cynnar. Gweithiodd am 49 mlynedd yn Chwarel Lechi Dinorwig, tan y bu'r chwarel gau yn 1969.

I Gofio William S. Griffiths, Clwt-y-Bont
WIL SAM

Un arall o hogia'r hen bentref
Ymfudodd o'r fuchedd hon.
Fe'i magwyd yn Tan-yr-Henffordd,
Pan briododd bu'n byw yn y Fron.
Cymeriad bob amser yn annwyl
A pharchus o bawb yn y fro,
A llenwi pob swydd ag anrhydedd,
Yn sicr y byddai bob tro.

Ar aelwyd ei gartref bob amser,
Roedd croesaw a phaned o de,
A hynny yn digwydd yn aml
Wrth ddyfod o Gapel Maes-dre.
Cans yno fel teulu yr elont,
Yn selog yn ystod y Sul,
Rhieni a gafodd a ddysgodd eu plant
I droedio y llwybr cul.

Fe gerddodd Wil Sam i'r Chwarel,
Derbyn cardod o gyflog i fyw;
Er hynny fel llawer hen weithiwr
Fe ddaliodd ei ffydd yn ei Dduw,
Ac anodd oedd magu'r 'run teulu
Ar gyflog ansicr yn wir,
Tra mawrion y Plas yn gwledda
Ar lafur Chwarelwyr y sir.

Pêl-droediwr nad oedd ei debyg
A'i chwarae yn dychryn bob cawr,
Y cae bob amser yn orlawn
Lle safai Maes Gwylfa yn awr.
Jack Malan oedd goli y pentref,
A Robin ei frawd yn full-back,
A Guto bach Scotch, a Jack Maldwyn,
A Wil Sam yn rhoi yr attack;
Wel dyna hi'n gôl a gweiddi hwre
Wrth weld tîm yr hogia yn curo y dre.

Da meddwl fod eto rai ieuanc
Yn chwarae pêl-droed o hyd,
A buan bydd bachgen o'r Pentra
Ymhlith rhai goreuon y byd,
A balch yw yr ardal
O'r Pentre i'r Dre
Y bod na rai eraill
Yn llanw ein lle.

R H Clwt-y-Bont

DIOLCH: Dymuna plant y diwedd
William Samuel (Wil Sam) Griffith,
ddiolch o galon i'w perthnasau,
cymdogion a chyfeillion am bob
arwydd o garedigrwydd a
ddangoswyd tuag atynt yn eu
profedigaeth sydyn. Diolch arbennig
am y blodau, y cardiau a'r llythyrau, y
rhoddion ariannol (cyfanswm o £400)
a fydd yn cael ei rannu rhwng Eglwys
Crist Llandinorwig a thuag at brynu
offer meddygol i'r Clinic yn
Neiniolen.

CYMORTH I'R HENOED A'R ANABL

Os ydych yn oedranus neu yn anabl, mae
cymorth ar gael. Mae'r llafur i'w gael yn
rhad ac am ddim ond fe fydd angen ichwi
dalw am unrhyw ddefnyddiau fydd eu
hangen, h.y. papur wal a phaent.

Mae'r cymorth i'w gael os:

1. ydych mewn oedran pensiwn neu yn
anabl,
2. nad oes gennych rhywun abl yn byw
gyda chi a allai wneud y gwaith.
3. na fedrwc dalu i rhywun i wneud y
gwaith.

Cynllun yw hwn sy'n cael ei noddi gan
yr MSC ac yn cael ei weithredu gan
NACRO. Rhaid i bawb sydd am
fanteisio ar y cynllun yma lenwi ffurflen
a chael person cyfrifol i gefnogi y cais
sef, Swyddog o Adran Dai Cyngor
Arfon, Swyddog Cymdeithasol, Nyrs
Gymuned, Swyddog Clwb yr Henoed,
Gweinidog neu Berson, Ynad
Heddwch, Cynghorydd Lleol ac ati.

Mae'r Gwasanaeth ar gael yn eich
ardal chi ac os ydych am fanteisio,
cysylltwch ag Annwen Hall, NACRO,
17-19 Stryd y Parc, Bangor, Gwynedd,
LL57 2AY. (Ffôn: Bangor
35581-361103).

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands "Glanrafon" (872275)

LLONGYFARCHIADAU i Christopher
Jones, Arosfa ar gyrraedd ei
ben-blwydd yn ddeunaw oed

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion
a dymunwn wellhad buan i Mr Ifan
Owen, Talgwynedd sydd yn Ysbyty
Gwynedd.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw deall fod
Mrs Peggy Rowlands, Talafon, wedi
dychwelyd adref ac yn gwella ar ôl
triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CLWB Y MAMAU A MERCHED
IFANC: Cyfarfu'r aelodau nos
Fercher, Ionawr 7fed yn y Ganolfan. Y
wraig wadd oedd Mrs Eryl Roberts,
Llanrug a mwynhaodd pawb ei sgwrs
am ei gwaith, yn egluro gyda'r celfi
oedd ganddi, sut yr oeddynt yn cael
eu defnyddio gan bobl a phlant. Y
gwestwagedd oedd Mrs Gwynedd
Roberts a Mrs Sioned Jones.
Enillwyd y raffl gan Mrs Vera Price.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein

cydymdeimlad dwysaf â Mr Iorwerth
Jones a'r teulu, Min-y-don yn ei
brofedigaeth o golli brawd, Mr Tom
Eilian Jones yng Nghaernarfon.

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty
Eryri, Caernarfon, Ionawr 7fed, yn 84
oed, bu farw Mrs Martha Margaret
Jones (Mattie), gynt o 11 Dôl Afon a
Phlas Pengwaith, Llanberis. Bu'r
angladd yng nghartref ei merch, 81
Maes Padarn, Llanberis ac yna ym
mynwent Penisarwaun.
Gwasanaethpwyd gan y Parchn
Gwynfor Williams a Trefor Lewis.
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf
a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli
mam, nain a hen nain annwyl iawn.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Eryl
Roberts, merch Mr a Mrs Llew
Hughes, Hyfrydle ar ei phenodi yn
Brif Swyddog Ymaddasu yng
Ngwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Gwynedd.

YN ISTA'N'BWL



Llongyfarchiadau i Robat Jones, Maes Eilian, Dinorwig ar ddatlu ei
ben-blwydd yn 81 oed ar Ionawr 16.

Ganwyd Robat Jones yn y Gaerwen, Ynys Môn. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i
weini ar ffarm i Fethesda. Priododd â geneth o Ddinorwig a dod i fyw i'r
Fachwen. Yna bu'n gweithio yn y chwarel am 37 o flynyddoedd. Bu yn aelod
ffyddlon o Bwyllgor Seindorf Deiniolen am gyfnod.

Roedd Robat yn hoff o'i beint a smocio'i bibell, felly bu'n teithio i'r Bull am
dros 55 o flynyddoedd.

Ar noson ei ben-blwydd eleni pan gerddodd Robat i'r Bull, cafodd fraw
anisgwyl — roedd teisen ben-blwydd ac 81 o gannwyllau arni yn ei ddisgwyl.
Cafodd gan y Bragwyr beint am bob blwyddyn y bu'n mynychu'r Bull, sef 55
peint!! Cafodd anrheg hefyd gan Clarice Roberts, (teclyn i gadw pibell). Yn
cynrychioli'r Bragwyr roedd Clarice, ei thad Mr Sam Maddox a Delyth.
Gwnaed y deisen gan Mrs D Hunter.

DIOLCH: Dymuna Robat Jones ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau,
Clarice, Delyth a Mr Maddox am yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniodd.
Diolch yn fawr.

5d oedd peint o gwrw pan ddaeth Robat Jones yma gyntaf yn yr hen bres!

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CLWB POBOL Y CWM: Oherydd
tywydd anffafriol bu raid gohirio
cyfarfyddiad o'r aelodau dydd lau,
Ionawr 15 ond hyderwn y bydd
amgylchiadau yn ffafriol i gyfarfod
dydd lau, Ionawr 29. Hoffai'r aelodau
ddiolchi'r Brodyr Morris, y Becws am
y Bara Brith a'r Mins Peis i de'r
Nadolig.

DIOLCH: Dymuna Myfanwy Roberts,
Bod Gwilym, ddiolch i'w
perthnasau a'i ffrindiau am y llu
cardiau ac anrhegion a dderbyniodd
ar achlysur ei phen-blwydd yn
ddeunaw oed. Diolch yn fawr iawn i
bawb.

ADRAN YR URDD PENLLYN: Yn ein
cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn
newydd cawsom sgwrs a sleidiau
yng nghwmni Duncan Brown, Prif
Warden y Cyngor Gwarchod Natur
yng Ngogledd Cymru. Testun ei
sgwrs oedd Yr Ystlum a chafwyd
noson arbennig iawn yn ei gwmni yn
dysgu am yr anifail bach rhyfeddol
hwn. Clywsom fel y mae'r ystlum yn
prinhau, ac fel y mae Cymru erbyn
hyn yn un o gadarnleoedd y creadur
bychan. Bydd Mr Brown yn dod atom
eto yn y Gwanwyn i sôn am
dyluanod. Mae o'n boblogaidd iawn
yn yr Adran — bydd wedi bod hefo ni
deirgwaith yn ystod y flwyddyn hon.

Yn ystod gwyliau'r Nadolig daeth
tîm pêl-droed Adran Penisarwaun i
lawr atom i Gwm-y-glo i chwarae
gêm yng Nghystadleuaeth Adranau
Pentref yr Urdd. Cafwyd gêm galed
iawn gyda'r sgôr yn gyfartal ar
ddiwedd y chwarae. Chwaraewyd
amser ychwanegol, a chyfartal oedd
hi wedyn. Ciciau cosb benderfynodd
y sgôr yn y diwedd: Penlllyn 4 —
Penisarwaun 5. Ein diolch yn
arbennig i Iwan Williams, Llanberis
am fod yn ganolwr mor effeithiol, er
iddo golli ei sgidiau droeon yn y
mwd!

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

GWELLHAD: Rydym yn dymuno gwellhad buan i Mrs Dilys Jones, Warden Hafan Elan, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mrs Anne Jane Jones, Bod Ifor, yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Rydym hefyd yn cydymdeimlo â theulu y diweddar Mrs Sarah Roberts, 15 Hafan Elan.

YN YR YSBYTY: Deallir fod Mrs Hughes Jones, Swyn y Gwynt, bellach wedi symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri, Caernarfon. Dymunwn wellhad buan iddi.

GWELLHAD: Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r canlynol hefyd: Mrs Williams, 18 Hafan Elan; Mrs B Evans, Gwyllfan; Mr Norman, Venice a Mrs Katie Parry, Hafan Elan.

CAPEL MAWR: Yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel Mawr, Ionawr 4ydd fe gyflwynodd y gweinidog y Parch John Morris gyfrol o'r Atodiad Newydd i'r Llyfr Emyrnau at wasanaeth y Pulpud. Rhodd ydoedd er cof am y diweddar Mrs Lydia Jones, 15 Hafan Elan ac fe'i rhoddwyd gan Mrs Beryl Thomas a Mr Cledwyn Jones, Rhosgadfan.

CYNGOR EGLWYSI PRYDAIN: Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd o dan nawdd y Cyngor hwn yn ystod yr Wythnos Weddiâu. Y Llywydd oedd Mr Emrys Owen, Hafan Elan. Nos Lun, Ionawr 5ed yng Nghapel Mawr, pregethwyd gan y Parch Ronald Williams, Caernarfon. Nos Fawrth, cafwyd cyfarfod gweddi yng Nghapel Pontrhythallt a nos Fercher, cafwyd cyfarfod gweddi yng Nghapel Mawr.

DIOLCH: Dymuna W A a Gwladys M Jones, Y Dalar Deg, ddiolch o galon i gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd mawr a'u cymwynasgarwch yn ystod arhosiad W A yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Er gwaethaf y cwyno am yr hen fyd yma y mae cymdogaeth dda yn Llanrug a diolch yn fawr. Dymunwn ninnau wellhad llwyr a buan i Mr Jones.

YSGOL FEITHRIN: Nos Fawrth, 23ain o Ragfyr aeth rhai o'r mamau o amgylch y pentref yn canu carolau er mwyn ceisio codi arian at yr Ysgol Feithrin. Cafwyd croeso cynnes gan bawb a gwnaed elw o £44.

Diolch i bawb a gyfranodd ac yn enwedig i Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion a fu mor garedig yn dod i arwain y canu.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR: Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar nos lau, 11 Rhagfyr, ymunodd aelodau o

Gymdeithas Undebol Pontrhythallt yn ein cymdeithas. Roedd y noson yng ngofal Mr Arwel Jones, Penisarwaun, pryd y cafwyd cwis, gyda thîm o ddynion a thîm o ferched, a'r gweddill o'r gynulleidfa yn cymryd rhan. Llywydd y noson oedd Mr J W Owen, Llain y Delyn. Diolchwyd ar ran Pontrhythallt gan Mrs E W Thomas, Dolwar, a diolchwyd i Mr Arwel Jones gan Mrs N Roberts, Mon. Yn gyfrolol am y baned oedd Mrs N Jones, Madryn; Mrs M Roberts, Tai Plastirion; Mrs B Thomas, Gerallt; Mrs M Jones, Ogwen; Mrs M Parry, Bryn Heli a diolchwyd am y baned gan Mrs D Jones, Hafan Elan.

Noson o Garolau oedd cyfarfod o'r Gymdeithas a gynhaliwyd nos Sul, 21 Rhagfyr. Llywydd y noson oedd y Parch John Morris, BD ac yn cymryd rhan oedd Mrs Ivor Williams, Hafan Elan; Miss Ffion Williams, Fferm Minffordd; Mrs M Pritchard, Bryn Moelyn; Mrs Taylor, Bryniau Fawnog; Mr E Evans, Monallt; Mrs J M Jones a Mrs M E Jones (deuawd); Mr Gwilym Rees Parry; Mr Ken Morris, Pencaenewydd (telyn), a pharti canu o Gapel Mawr. Diolchwyd i bawb gan y Parch John Morris.

Oherwydd y tywydd bu rhaid gohirio y cyfarfod oedd i fod i'w gynnal nos lau, 15fed o Ionawr.

CANLYNIADAU RAFFL NADOLIG RADIO YSBYTY GWYNEDD:

1. £25: U Aldryd, Amlwch;
2. £10: Bill Roberts, Bob Parry, Caernarfon;
3. £5: Betty, Gaerwen;
4. Tocyn Boots £3: Anna Roberts, Penygroes;
5. Siocled: Glyn Pritchard, Brynsiencyn;
6. Sgarf weu: Alison Thomas, Guides Bangor.

Gwobr i'r claf yn yr ysbyty £5: Mrs E Roberts, Bangor (Ward Ogwen).

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, ar gael ei phenodi yn Brif Swyddog ymaddasu yng Nghwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

CYDYMDEIMLAD: Rydym yn cydymdeimlo â Mrs E Thomas, Mayville, Ffordd Glanffynnon, ar farwolaeth ei chwaer yn Leicester yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Rhagfyr yr 16eg, gyda Mrs Megan Williams, Bron Eryri yn llywyddu, cafwyd noson arbennig gyda rhai o blant yr Ysgol Gynradd, gyda'u hathrawes cerdd Mrs Mair Hughes yn cymryd rhan. Cafwyd amrywiaeth o unawdau, deuawd, offerynnau cerdd a'r côr.

Cyflwynwyd y gweithgareddau gan y Prifathro, Mr Derfel Griffith. Talwyd diolch iddynt gan Mrs J Li Williams, Bod Fair.

Ionawr 20fed, croesawyd Mr Leslie Larsen, Penisarwaun, i ddangos amrywiaeth o luniau, wedi eu tynnu yn y cyffiniau, gan roi sylwadau arnynt. Llywydd y noson oedd Mrs Megan Humphreys, Cadnant, a

thalwyd diolch i'r siaradwr gan Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd.

Calendr y Mis:

Chwefror 3ydd - Y Gymdeithas Undebol, Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun.

Chwefror 17 - Y Parch H J Hughes, Porthaethwy.

Mawrth 3 - Dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Plas Tandinas.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

SIOE'R PENTREF: Cynhelir Sioe Cynnyrch Gardd a Thy Caeathro ddydd Sadwrn, Awst 22. Yn y dosbarth gwau a chrosio mae'r dewis rhwng gwneud dilledyn ar gyfer yr ymgeisydd a-neu dilledyn ar gyfer plentyn o dan 5 oed. Dosberthir y rhaglen ar gyfer tyfu llysiau, ffrwythau a blodau cyn y Pasg. Fel arfer bydd y rhaglen iawn yn cael ei dosbarthu o dŷ i dŷ yn gynnar ym mis Awst.

PARTI NADOLIG: Eto eleni cafwyd parti gwerth chweil yng Nglangwna. Er i'r rhifau fod yn is eleni, mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn. Enillwyd y raffl fel a ganlyn: Porc - William Hughes; Gwin - Einir Roberts; Bocs o fwyd - Beryl Roberts; Bocs siocled - Nan Roberts; Cyw iâr - Huw Jones; Gwin - Sion Atkinson; Bocs siocled - Miriam Evans; Bisgedi - Grace Griffiths; Gwin - Steve, Bryn Gwna; Ffesant - Bryn Griffiths; Logiau - Mrs Lil Jones; Bocs siocled - David Jones.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael - Llew Owen, Eric Roberts, Deiniol Hughes, Mr Atkinson, Ifor Hughes, Paul Hummel, Richard Merfyn Roberts, Steve Bryn Gwna, Mrs Berry, Clive James, Aled Jones, Mr Evans Gwalia Garage, Michael Thomas, Cigydd.

HAMPERS NADOLIG: Dymuna pensiynwyr y pentref ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor y Cae Chwarae am yr hampers hael a gawsant eto eleni.

MARWOLAETH: Fel pentrefwyr cydymdeimlwn â Mrs Peggie Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr Mr Clifford Ramsden Williams (Clifford Tinman).

Y TYWYDD GARW: Er mor arw y tywydd yn ddiweddar, ni aeth pensiynwyr y pentref ar ôl oherwydd y cymorth parod a gawsant gan un o'r trigolion. Bob dydd galwodd Mr Deiniol Hughes yn nhai Rhes Glangwna a chynnig ei wasanaeth gwerthfawr. Mawr yw eu diolch iddo.

Y CAPEL: Pregethir gan y canlynol am 2 y prynhawn:

1 Chwefror - Mr T Elwyn Edwards (Caernarfon)

8 Chwefror: Mr Albert Jones (Caeathro)

15 Chwefror: Miss Gwenda Jones (Coleg Unedig Aberystwyth)

22 Chwefror: Y Parch S Williams (Y Fron)

1 Mawrth: Y Parch Gwilym Hughes (Caernarfon)

Cynhelir yr Ysgol Sul am 2 hefyd yn y festri. Croeso i aelodau hen a newydd.

SEISNIGO ENWAU: Ydi hi'n arwydd o'r amser fod un o dai'r pentref wedi newid ei enw? Tŷ nobl, mawr oedd Fron Deg. Erbyn heddiw "Cashlink House" yw ei enw, gyda dau arwydd newydd sbon o lechen i argyhoeddi'r byd a'r betws. Beth am gynnig enw Cymraeg i'r perchennog newydd?

CÔR HWYDAID! Pethau od iawn yw pobl. Yn yr Hydref roedd y ceir yn mynd dros 30 m.y.a. trwy ganol pentref Caeathro heb oedi am blant, yr henoed neu geir eraill wrth gyffordd Tai Glangwna. Ond daeth ymwelwyr - yr hwyaid - i fyny o lyn isaf Glangwna i ymgartrefu ger y goeden Nadolig. Yn sydyn iawn roedd pawb yn gyrru yn ofalus trwy ganol y pentref. Yn y flwyddyn newydd roedd digwyddiad trist, lladdwyd un hwyaden gan gar. Unwaith eto mae'r ceir yn cyflymu trwy'r pentref. Beth neu pwy fydd yn cael ei ladd nesaf - hwyaden neu blentyn? Gyfeillion annwyl, parchwch eich pentref, cadwch at 30 m.y.a. a pheidiwch torri gwn radar yr heddlu. Yna fe fydd trigolion a hwyaid Caeathro yn sâff.

PLYGU'R ECO

**Rhifyn MAWRTH
Nos lau
Chwefror 26ain
am 6 o'r gloch**

**FESTRI CAPEL
CAEATHRO**



**CRIB
COCH**

**Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772**

**TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN**

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

**J M JONES
A'I FEIBION**

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)**

PENISARWAUN

PUM CENHEDLAETH

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Nos Fercher, Rhagfyr 17, am 5.30pm yn Eglwys Santes Helen, fe gynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant. Y thema oedd "Y Goeden Nadolig fach Unig." Gwnaed casgliad o £30.40 tuag at Gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i Mr Tegid Roberts am gymryd y rhan arweiniol ac i bawb a gefnogodd y plant a'r athrawon.

Fel ymgyrch i godi arian tuag at gronfa'r ysgol eleni, disgwylir i'r Adran Fabanod ddysgu cyfres o Hwiangerddi Cymraeg, a phlant yr Ysgol lau feistrol nifer o ddarhebbion, idiomau a barddoniaeth Cymraeg a Saesneg, ynghyd â nifer o englynion Cymraeg. Er budd iaith y plant a chyllid yr ysgol gofynnir yn garedig i chwi eu noddi.

Bydd gwyliau hanner tymor **Chwefror 13 (Gwener), 16 (Llun) a 17 (Mawrth).**

ADRAN BENTREF YR URDD: Cafwyd parti hwyliog yn Neuadd yr Eglwys, Rhagfyr 16 - Diolch i'r rhieni am eu haelioni ac i Anti Delyth ac Anti Carolyn am wneud y trefniadau.

Aeth llond bws i Theatr Gwynedd i weld y Pantomeim Jim Cro Crystyn a chafodd William Lewis a Rhian Green y fraint o arwain y gynulleidfa gyda llwy bren fawr - arweinyddion o'r radd uchaf! Diolchwyd i Anti Carolyn ac Anti Elinor ac Anti Elen am wneud yr holl drefniadau gan Sioned Lewis.

Cychwynodd yr ail dymor gyda'r gêm boblogaidd "Chwilen". Oherwydd y tywydd oer gohiriwyd 'Noson y Sleidiau', gyda Mr Larsen ar lonawr 13eg.

Noson o chwysu a chwerthin gafwyd nos Fawrth, lonawr 20fed gyda Mrs Bethanne Williams - dawnsio gwerin i bob oedran o'r ieuengaf i'r hynaf. Diolch yn fawr am noson hwyliog.

Dyma'r gweithgareddau hyd Chwefror 24ain:

Ionawr 27ain: Noson o Gân gydag Edward Morus Jones.

Ionawr 31ain: Pedwar Aelod o'r Adran yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth nofio yr Urdd ym Mangor.

Chwefror 3: l'w trefnu!

Chwefror 10fed: Sgwrs gan Mr Selwyn Griffith.

Chwefror 17: GWYLIAU HANNER TYMOR

Chwefror 24: 'Byd Natur' gyda Duncan Brown.

EISTEDDFOD BENTREF: Oherwydd y tywydd garw gohiriwyd 'Sêl lonawr', oedd i'w chynnal yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, lonawr 15fed.

Os oes ticed gennych, gofynnir i chwi ei gadw'n saff - fe gewch wybodaeth am noson arall ymhellach ymlaen.

CLWB CANT: Bu criw o garolwyr o gwmpas y pentref nos Lun, Rhagfyr 22ain, diolch i bawb am eu gwrandawriad eu haelioni a'u croeso **cynnes iawn**, ambell un! Gwnaed casgliad o £22. Enillwyd y Clwb Cant mis Rhagfyr oedd 1. Janice Jones, 2. Wil Jones, 3. Keith Jones, Cae Corniog.

Gweithgaredd mis lonawr fydd Noson Santes Dwynwen, nos Lun, lonawr 26ain yn Neuadd yr Eglwys.

Y mae blwyddyn gron wedi mynd heibio, a bellach mae'n amser ail ymaelodi â'r Clwb Cant - **croeso cynnes** i aelodau newydd ymuno â ni - £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Diolch i bawb a gefnogodd y Clwb yn 1986 a gobeithio y byddwch yn parhau yn ffyddlon i'r Clwb yn 1987.

APÊL Y SGANIWR: Mae'r nôd o £1,300 **bron iawn** â'i chyrraedd. Os oes rhywun yn dymuno cyfrannu a fuasech garediced â gwneud hynny rhag blaen os gwelwch yn dda - i Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: Rhagfyr 30ain, dathlodd Rheon Larsen ei ben-blwydd yn 18 oed a bydd Sharon Owen hithau yn 18 oed ar Chwefror 21ain. Llongyfarchiadau i chwi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Eurgain Haf ar fod yn llwyddiannus mewn Arholiad Piano Gradd VI - mae'n ddisgybl i Mrs Heulwen Williams, Bethel.

CAPEL BOSRA: Fore Sul, Rhagfyr 21ain, am 10.00am cyflwynwyd 'Y Nadolig â'i Symbolau' gan blant yr Ysgol Sul. Dymunwyd adferiad iechyd buan i Mrs Eluned Jones, un o athrawon ffyddlon yr Ysgol Sul. Pnawn Llun, cafodd y plant barti Nadolig ar y cyd a phlant yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys. Diolch o galon i Sion Corn am alw ac i bawb a gyfranodd at y parti.

EGLWYS SANTES HELEN: Pnawn Sul, Rhagfyr 21ain cafwyd Gwasanaeth Nadolig Naw Llith a Charol ac eitemau gan blant yr Ysgol Sul.

Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r Noswyl Nadolig am 11.30pm.

Y mae'r aelodau i gyd yn anfon eu cofion at Mrs Evans, Bod Idris, sydd ar hyn o bryd ym Mron Eryri. Cydymdeimlir hefyd â Boris, Gareth a Tom Evans wedi colli eu tad Mr Thomas John Evans.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad llwyrfa â Mr Alwyn Jones, Racca wedi colli'i fam; Mr Victor Jones wedi colli modryb; Helen Owen a'r teulu wedi colli cenfder; Mrs Munro wedi colli perthynas annwyl, a theulu Blaencae Isaf wedi colli priod a mam



Yn eistedd Thomas Parry sy'n 100 oed, ei fab Tom Parry, ei wŷr Dic Parry, ei or-wyres Ffion a yna ei or-or-wyres Manon Glyn.

dyner. Saith mis i'r diwrnod wedi colli mam annwyl, daeth profedigaeth sydyn arall i Bobbie a'r teulu - yn dawel bu farw Mr William John Jones, Bryntirion - tad annwyl Huw, Eric, Bobbie, Bet ac Olwen. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwi oll.

GWELLA: Gobeithio fod Mr Goronwy Jones, Cae Ffynnon, Mr W H Griffith, Tros y Waen, a Rebecca Thomas yn well wedi triniaeth yn yr Ysbyty. Hefyd Mrs Percy Williams ar ôl torri ei braich, ac i bawb sy'n sâl yn y pentref - brysiwch wella i gyd.

DIOLCH: Dymuna Eirlys a Nathan Jones, Gwynant, Bryn Hyfryd,

ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymodgion am yr anrhegion, blodau a'r llu cardiau ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Percy Williams ddiolch i bawb am eu caredigrwydd wedi iddi gael damwain, yn enwedig felly i Mr Mike Lamb, Bryn Eglwys.

DIOLCH: Dymuna Rheon Larsen ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

CLWB CANT: Gweithgaredd mis Chwefror fydd "Siôn a Siân" yng ngofal Arwel Jones, ynghyd ag eitemau gan aelodau'r Urdd.

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r "Eco".

£3: Mr O R Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen; Mr a Mrs Eirlys Williams, Gwynant, Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Genod Tŷ'r Ysgol.

£2: Mr Brian Price, 14 Hafod Olau, Deiniolen; Mrs E Close, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen; Monica a Michael Owen, 17 Pentre Helen, Deiniolen; Laura ac Alun Wyn Evans, 55 Pentre Helen, Deiniolen.

£1: Mrs G A Maxwell, Fron Olau, Gallt y Foel; Yvonne Jones, 11 Stryd Newydd, Deiniolen; Martin Llywelyn, pen y Goleg, Deiniolen; Mrs Ada E Thomas, 8 Maes Eilian, Deiniolen.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047



22 BRYNTIRION

TAC SIS WEBB

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Blwyddyn Newydd Dda i chwi - yn aelodau ac yn ddarllenwyr y golofn. Cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas yn ystod y mis, a choeliwch neu beidio, mae'r rhaglen am y flwyddyn nesaf, sef o fis Ebrill 1987 hyd fis Mawrth 1988 - eisoes wedi ei threfnu. Bydd y manylion i'w cael yn llawn erbyn mis Mawrth. Cafwyd noson arbennig o ddiddorol ym Methel, gyda thri o'r aelodau'n trafod gwahanol agweddau ar hanes y fro, gyda'r pwyslais yn bennaf ar Lanberis. Mae'r nosweithiau yng ngofal yr aelodau'n profi'n llwyddiannus iawn, ac edrychwn ymlaen am y nesaf ym mis Mawrth. Bydd cyfarfod Chwefror yn Ysgol Gynradd Llanrug, gydag Emyr Jones, Caernarfon yn trafod Cerddoriaeth y Chwarelwr.

Derbyniwyd yr erthygl isod gan Mr Meurig Owen o Lundain (gynt o Lanrug). Dyma un o'r "aelodau oddi cartref" yn cyfrannu tuag at lwyddiant y gymdeithas hanes. Gobeithiwn gyhoeddi mwy o waith ymchwil ganddo yn ystod y misoedd nesaf.

GORSAF YM MHENSARN?

Yn un o rifynnau cynnar yr Eco y gwelais y cyfeiriad cyntaf at Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Er i mi gael fy ngeni yn y pentref a byw yno nes gadael yr ysgol a'r cylch yn 1937, ni chlywais neb yn defnyddio'r enw. Gwyddem oll enwau'r tai o'r Capel i Ben y Bont. Wedi holi, eglurwyd i mi mai y Cwmni Trydan a roddodd yr enw Station Road ar y ffordd, mae hynny yn ddigon posibl. Yn ddiweddar yn y Public Records Office gwelais ddogfen o'r ganrif ddiwethaf gyda chais, pe'i derbyniwyd, fuasai wedi gwneud ffordd y Crawia yn Ffordd yr Orsaf hefyd. Credaf y bydd nodyn am y ddogfen o ddiddordeb i ddarllenwyr yr Eco ac efallai Cymdeithas Hanes y Fro.

Deiseb yw at Gyfarwyddwr Rheilffordd Caernarfon-Llanberis, a ysgrifenydd yn Saesneg ar bapur glas, ond yn anffodus heb ddyddiad, sydd yn dwyn 296 o enwau ar naw tudalen o'r un papur ond ychydig yn llai ei led. Glynwyd y tudalennau wrth ei gilydd i wneud sgrôl go helaeth. Rhifwyd pob enw ac yn amlwg 300 oedd y nôd ond bu dipyn o anffawd a neidiwyd o rhif 151 i 156. Awgrymaf mae 1868 yw y dyddiad gan fod Gorsaf Pontrhythallt wedi ei chwblhau erbyn mis Gorffennaf 1869 yn ôl Cofnodion Cyfarfodydd y Cyfarwyddwyr a'r seidin yno erbyn mis Tachwedd yr un flwyddyn. Dyma fy nghyfieithiad o'r ddeiseb: "Rheilffordd Llanberis.

At y Cyfarwyddwyr, Foneddigion,

Pwrpas y ddeiseb hon yw galw eich sylw at yr angen i agor gorsaf ym Mhensarn ar y rheilffordd uchod. O ddeutu saif dau bentref mawr gyda chymdogaethau eang, Bethel a Llanrug. Gellir dweud am y pentrefi hyn yr adeiladir tai ac agorir siopau newyddion yno, gyda chynnydd cyson yn y boblogaeth sydd ar hyn o bryd dros ddwy fil.

Trefnwyd yn bresennol i'r orsaf agosaf fod ym Mhontrhythallt, man sydd i gyfeiriad Llandinorwig o Lanrug ac nid Caernarfon, tref y Farchnad, ac mae'r pellter yno o Fethel dros ddwy filltir eto i gyfeiriad Llandinorwig a'i gwna yn hollol anghyfleus.

Felly yr ydym ni a dorasom ein

henwau isod, yn bennau teuluoedd a thrigolion Bethel a Llanrug, yn atolwg yn ostyngedig (*humbly pray*) i orsaf gael ei hagor ym Mhensarn, man sydd yn drwyadl gyfleus ac yn ganolog i'r cymdogaethau cynyddol hyn gan roddi cyfle felly i drafaelio i'r gwahanol gyfeiriadau ar y lein. (*and an opportunity will be so given to travel on the different directions of the line*)"

Yna daw yr enwau, a hyfrydwch i mi oedd ei ddarllen ac yn arbennig enwau tai Llanrug. Mae 32 o enwau o Lanrug ar y dudalen gyntaf, John Williams, Post Office sydd yn agor y rhestr. Ymhlith y gweddill ceir Richard Evans, Chapel House; David Parry, Flour Dealer, Llanrug House; Owen Richard Griffith, Grocer and Tea Dealer, Llanrug; Robert S Hughes, National School a Moses Jones sydd yn dangos ei siop fel "Haffway Siop", chwarae teg iddo. Arwyddodd amryw o Llaingro a dau o'r British School, R Griffith a L G Griffith.

Pobl Saron yw'r mwyafrif sydd ar dudalennau 2, 3 a 4, 103 ohonynt yn cynnwys Ellis Williams, Shoe Warehouse; John Thomas, General Dealer; Robert Thomas, Post Office; Robert Roberts, Draper and Grocer, Saron; Gwalchmai Williams, Shoemaker; Jennet Jones, Grocer, Saron a Hugh Hughes, Builder Master, Saron.

Dychwelwn yn ôl i Lanrug gyda'r dudalen nesaf o 32 o enwau. Cynhwysir yn eu plith David Morris yr Efail; Richard Owen, Tyddyn

Mawr a John Williams, Twll y Clawdd yw rhifau 136 a 137, gallaf ddychmygu am rhywun yn cerdded yr hen lwybr o Dyddyn Mawr i Dwll y Clawdd gyda'r ddeiseb. Hiraethwn wrth ben yr hen enwau: Bryn y Fedwen, Penisaf y Rhos, Didfa, Pant Howel, Bryn y Llan, Pen y Greuor, Ty'n y Buarth, Bryn Hafod, Ty'n y Winllan a Thyddyn Elan.

Ar dudalennau 6, 7, 8 (rhifau 171 i 269) ceir llofnodion trigolion Bethel gan gynnwys R Williams, Grocer; Robert Jones, Gors Bach Inn; John R Williams, Tŷ Capel y Cysegr a nifer o Erwbian Street. Yna symudir i gyfeiriad Pensarn gyda Robert Griffith, Tyddyn y Felin; Robert Robins, Cae Meta Bach; Robert Jones, Erw Fforch; Elizabeth Thomas, Penrhyn; Evan Owens, Coed Bolyn a pherchenogion Melinau'r Crawia. Yna'n ôl i ardal Bethel gyda nifer o Dregof.

Pobl Llanrug gan mwyaf sydd ar y dudalen olaf, rhif 9, enwau o 270 i 300. Cynhwysir yma drigolion Bryn Gro, Glan y Gors, Castell, Bryniau Fawnog, Brynmoelyn, Afonrhos ac eraill. Yna i gloi, y tri enw olaf yw William J Williams, British School, Bethel; David Griffith, Congregational Minister, Bethel a

Thomas Hughes, Grocer, Bethel. Er gadael rhai o'r gynau mawr hyd y diwedd nid oes rhaid cofnodi mai methiant fu'r ymgyrch i gael gorsaf ym Mhensarn. Hyd yn hyn ni welais unrhyw ddogfen yn dangos adwaith y Cwmni i'r cais. Erbyn 1868, os dyna ddyddiad y ddeiseb, rheolid y Cwmni i bob pwrpas ymarferol gan y London and North Western Railway.

Credaf mai cais am orsaf ychwanegol oedd ac nid un i ddiorseddu Pontrhythallt gan Bensarn. Mae yma enwau a'i trigfa yn nes i'r Bont o lawer; William Speakman, Post Office, Penisarwaen yw'r ail enw, trigolion Llain y Gro a'r ddau Griffith o Ysgol Bryn Eryr. Arwyddodd John Williams, Erw Howel, Richard Jones, Craig y Dinas a John Jones, Tan y Gaer. Os yw fy nghof am leoliad rhai o'r tai yn gywir, ni welaf y rhain yn cerdded i Bensarn yn hytrach na'r Bont. Fel un o blant y Bont, ni choleddaf y syniad for trigolion ardal y Capel Mawr yn gwrthwynebu cael gorsaf ger yr afon ar dir Eithin Duon gynt. Buasai blyneddodedd bachgendod lawer yn dlotach heb stesion y Bont a'r tir cyfagos; y cytin fel y galwem ef.

Annisgwyl ond diddorol iawn i mi oedd darganfod y ddeiseb ar fater pwysig i bobl yr ardal tua 118 o flynyddoedd yn ôl.

SIOE FFASIYNAU MERCHED Y WAWR a CHWMNI LAURA ASHLEY

Yr oedd cannoedd ohonom - aelodau Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr - wedi ymgynnull yn Neuadd John Phillips Bangor nos Fercher, Rhagfyr y trydydd, 1986. Ac yno, cael noson liwgar a chofiadwy tu hwnt, noson hefo siawns i sgwrsio a chymdeithasu, ond y prif atyniad oedd yr arddangosfa o ddilladau Cwmni Laura Ashley. Fe gafwyd menthyg y dilladau yn ddidal - a diolch yn fawr i'r cwmni am hynny, a chafwyd llwynfan gerdded gan Theatr Gwynedd, ac ar hyd-ddi, yn osgeiddig iawn cerddai aelodau o Ferched y Wawr a'u plant i ddangos y dilladau. Wyth deg o wisgoedd o bob math, a rheini yn codi blys arnom i gyd, yn enwedig o gofio fod dathliadau y Nadolig a'r Calan ar y gorwel.

Nesta Llwyd o Dregarth oedd yn cyflwyno'r modelau, ac yn disgrifio

a phrisio'r gwisgoedd - ardderchog meddai pawb. Efo hi ar y llwyfan yr oedd Manon Parry, y delynores ifanc o'r Groeslon, a'i chyfeiliant yn rhoi dipyn o ramant i'r dangos.

Rhaid enwi'r modelau a'i gwnaeth yn bosibl i ni fwynhau'r noson - Jane Jones, Bethan Hardy, Moira Owens, Jo Oliver, Marian Lloyd Davies, Bethan Roberts, Gwen Pritchard Jones a Chatrin, Gwenno Llwyd, Angharad de Bruin, Nia Rees Jones, Mererid Mair a dwy ferch o'r Coleg Technegol. Karen Thomas o'r 'Body Talk' Caernarfon oedd wedi coluro a thrin gwalltiau y modelau i gyd.

Diwedd y gân yw'r geiniog, fe wnaed elw, ac fe fydd achosion elusennol ar eu mantais.

Ar Fawrth y 6ed, yn Neuadd Ysgol Brynrefail, fe fydd y Rhanbarth yn brysur eto - Ffug Eisteddfod.

TACSIS
AMBERLINE
BETHEL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

**SELWYN
MORRIS**

**Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau**

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

O GANADA I BATAGONIA

Derbyniwyd yr hanesyn hwn gan un o hogiau'r Waunfawr gynt, ond sydd bellach yn byw yng Nghanaada. Mae Owen Wyn (Graianfryn, Waunfawr) a'i wraig Josie (o Landdeusant) wedi byw yng Nghanaada ers dros chwarter canrif bellach. Y llynedd, cawsant gyfle i ymweld â Phatagonia - a dyma beth o flas y daith honno. Gol.

Roeddem yn hedfan o Toronto ar nos Sadwrn, Hydref 11eg a glanio yn Efrog Newydd cyn dal awyren arall am Buenos Aires, a glanio ar fore Sul yng nghanol torf anferth o bobl. Roedd tair awyren wedi glanio o fewn ychydig funudau i'w gilydd, a'r teithwyr i gyd yn ceisio cyfarfod â rhywun ar y lanfa. Mor falch oeddem o weld y Ddraig Goch yn chwifio yn llaw Valerie a Jorge a ddaeth yno i'n cyfarfod.

Ar y nos Sul cawsom gyfarfod â mintai o Ferched y Wawr a ddaethai drosodd o'r hen wlad. Yn eu plith oedd Mary V Jones, ac mor falch oeddwn o gael siarad â rhywun o'r hen gartref. Bu hen siarad yn Neuadd y Cymry y noson honno.

Fore Llun rhaid oedd cychwyn yn gynnar i ddal awyren arall, a thaith ddwyawr i'r Wladfa ei hun, a glanio yn Nhreflew. Gŵr o'r enw John Sturtee Rodgers oedd yn ein cyfarfod, ac ar ôl cinio, buom yn ymweld â'r hen gapel a'r fynwent. Sylwi fod llawer yno wedi marw'n ifanc oherwydd i'r afiechyd diptheria daro'r wlad, a dim meddyginiaeth i'w gael. Yna, cawsom ymweld â'r ffermydd lle bu'r Cymry'n gweithio yn yr hen ddyddiau. Roedd ffosydd tua 5 troedfedd o led a 5 troedfedd o ddyfnder wedi eu torri i droi dŵr o'r afon i'r tir. Gosodid olwyn ddŵr gyda thuniau gwag ar ei hesgyll i godi'r dŵr o'r ffos i'r tir. Roedd yn bridd ffrwythlon wedi ei ddyfrio, a thyfwyd erwau o wenith arno. Bu'n rhaid adeiladu rheilffordd o'r Paith i'r arfordir er mwyn allforio'r cynnyrch. Gynt, ceffylau oedd yn gweithio ar y tir, ond bellach mae'r tractor wedi eu disodli, ac y mae meibion a merched y ffermydd wedi gadael am waith yn y trefi.

Cawsom daith arall mewn awyren hefyd - Esquel a Trefelin, rhyw awr o siwrnai. Roedd yn werth gweld y golygfeydd: copaon y mynyddoedd yn wyn dan eira, y coed yn dechrau deilio, a'r borfa yn glasu. Er mai Hydref oedd y mis, gwanwyn oedd y tymor ym Mhatagonia.

Buom ar daith i Chile hefyd - gwlad dlawd yn ôl pob sôn - y bobl yn gweithio'n galed am dâl bychan. Deuai rhai ohonynt drosodd i'r Ariannin ac aros yno am fod amodau byw yn well.

Ym Mhorth Madryn y glaniodd y fintai gyntaf o Gymry, gan lechu mewn ogofau wedi eu cloddio'n y creigiau. Gerllaw mae twr uchel o gerrig, a cherflun o Indiad yn edrych

dros y dŵr. Yr oedd yr Indiaid yn gyfeillion i'r Cymry.

Bellter o Borth Madryn mae glan y môr lle daw'r morfilod i eni rhai bach. Mae gan y teirw tua wyth o fuchod, a bydd cweryla ffyrnig yn eu plith i sefydlu hawl ar y teulu. Mewn rhan arall roedd cannoedd o Bengwin yn magu, gan dyllu i'r ddaear a dodwy dau ŵy. Tra'r eisteddai un Pengwin ar yr wyau, âi'r cymar i chwilio am fwyd. Wedi i'r wyau ddeor, bydd un hen bengwin yn gwarchod y rhai bach tra bo'r rhieni'n casglu bwyd. Rhyfedd yw trefn Natur.

Un dydd buom yn ymweld â fferm fawr - roedd 21 oystafelloedd yn y ffermydd! Cawsom bryd o fwyd bythgofiadwy - math o barbeciw a elwir yn ASADO. Roedd pedwar o ŵyn yn cel eu rhostio - y cig yn fendigedig, a phawb yn saim o glusti glust yn mwynhau! Eisteddai gwraig o'r enw Morwena Pugh wrth ein hymyl. Roedd yn 82 oed, a chawsom lawer o hanes y Dyffryn ganddi.

Soniodd fel y clywodd yn blentyn hanes llifogydd mawr 1900, a phawb yn gorfod cymryd i'r cychod ac anelu am y Bryniau. Yr un peth yn digwydd wedyn o fewn dwy flynedd, a'r trigolion yn colli popeth yn y lli mawr.

Ymweld â'r eisteddfod wedyn, yng nghwmni Morwena, a hithau'n dweud fel roedd y Gymraeg yn colli tir i'r Sbaeneg - y plant yn priodi rhai o dras Sbaenaidd ac yn colli eu hiaith. Ond chlywais i ddim byd tebyg i'r canu yn yr eisteddfod - yn Gymraeg a Sbaeneg; yr hen emynau - Cwm Rhondda, Calon Lân - yn cael eu canu'n y pedwar llais; a'r cyflwyno cystal ag unrhyw gôr o Gymru.

Dyna'r croeso gorau erioed a gawsom mewn unrhyw wlad dramor - ac nid yn unig gan y Gymry. Roedd yr Indiaid a'r Sbaenwyr yr un mor frwd am ein bod ninnau hefyd yn "Galesa".

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian



Llun o Ysgol Dinorwig tua 1940 neu 1941. Ar y dde mae Mr Williams y prifathro, ac ar y chwith, Mr E V Hanks. Ond pwy tybed yw'r plant? Llun gan Robin Penylan, Gallt y Foel.

CYFARFODYDD GWEDDI:

Yr oeddem yn ffarwelio a'r flwyddyn 1986 gyda'r gweithgareddau a gysylltir â'r Nadolig - y canu carolau yn y capeli ac Eglwys St Mair a than nawdd y Gymdeithas Undebol leol. Yn gynnar yn Ionawr 1987 yr oeddem yn ymgynnull yn Eglwys St Mair i gynnal cwrdd gweddi dechrau'r flwyddyn y Gymdeithas Ddiwylliadol, ac rwy'n credu i ni gael cyfres o weddïau cyfoethog, er mai prin oedd y gweddïau 'o'r frest', fe fanteisiwyd er hynny, ar gymorth arbenigwyr - gweddïau wedi eu dethol o wahanol gylchgronau'r enwadau.

TEULU Tŷ'R YSGOL: Nid oes rifyn o'r 'Eco' yn myned heibio heb rhyw gyfeiriad at deulu amryddawn Tŷ'r Ysgol. Maent yn ymddangos ar y cyfryngau'n bur aml - y tad a'r tair merch. Fe'u gwelwyd mewn rhaglen Saesneg o Westy'r 'Victoria' Llanberis, ac fe welwyd Evan Bryn Roberts yn ymddangos fel aelod o Gôr Meibion y Penrhyn yng ngornest Y Corau ar S4C.

Teg yw nodi bod traddodiad cerddorol a llenyddol yn Ninorwig mewn dyddiau cyn bod teledu, nac hyd yn oed radio, a'r traddodiad hwn a gedwir gan artistiaid y cyfnod presennol.

SYMUD Tŷ: Rhyw fyned a dod a welir ym Maes Eilian ac fe ddeallwn bod Mr a Mrs John Roberts, Rhif 4 yn symud oddi yma i fyw i Gaernarfon. Fe dreuliodd yntau'n agos i ugain mlynedd ym Maes Eilian, ond mae gennyf gof ohono pan oedd yn byw ar Ynys Môn, yn treulio'r wythnos o fore Llun hyd nos Wener yn y barics oedd yn rhan ucha'r chwarel. Fe'i gwelais amryw weithiau yn dod i lawr Allt Bwlch Uchaf i bwrcau angenrheidiol o Ddeiniolen a minnau ar y pryd yn dod o'r ysgol ddyddiol.

DATHLU PEN-BLWYDD: Mae Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian yn cael ei ben-blwydd yn 81ain ar Ionawr

16fed. Hyfryd iawn yw llongyfarch rhai fel ef yn cyrraedd oedran mor deg. Fe gyfeiriwn hefyd at Mr O R Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen (gynt o Bro Elidir, Dinorwig) yntau'n diolch yn galonnog i'w deulu a chyfeillion am eu dymuniadau da iddo ar ei ben-blwydd yn 80ain yn ddiweddar. Mae'n diolch am roddion, cardiau a llythyrau a dderbyniodd ar yr achlysur hapus.

CYDYMDEIMLO: Ar ganol ysgrifennu'r nodiadau hyn fe glywsom ninnau am farwolaeth Mrs Rose Peel, chwaer yng nghyfraith Mrs Ada E Thomas, 8 Maes Eilian. Gweddïau oedd hi i'r diweddar Mr Walter Peel.

Fe gydymdeimlwn yn ogystal â Mrs Rosemary Jones, 10 Maes Eilian, hithau wedi colli ewythr ym Mhenisarwaun.

Yr adeg hon o'r flwyddyn mae nifer o'r rhai sydd wedi myned ymlaen mewn dyddiau yn colli'r dydd ac angau'n dod i'w rhan. Un o'r rhain oedd Mr Harry Parminter a ymadawodd â'r ardal a mynd i fyw gyda'r mab yng Nghaergybi. Ei ddiweddar wraig oedd yn gyfrifol am gadw busnes llythyrdy yma yn Ninorwig, ac fel eraill yn y cyfryw swydd yn cynorthwyo eu cwsmeriaid ag amryfal waith llythyrdy. Yn Eglwys St Mair yr oedd y gwasanaeth angladdol a hwnnw ar ddydd Mercher, Rhagfyr 24ain, ac roedd nifer o'r ardal yn talu'r deyrnged olaf i'r ymadawedig.

Er ein bod yn awr ynghanol tywydd gaeafol, gobeithiwn er hynny am well tywydd yn y gwanwyn a'r haf gyda digon o haul hirfelyn, fel mae'r cricedwyr yn ei gael yn Awstralia ar eu taith lwyddiannus y dyddiau hyn.

HEN BENNILL

Bu gennyf ffrind a cheiniog hefyd, Ac i'm ffrind mi rois ei benthg. Pan ês i nôl fy ngheiniog adre, Collais i fy ffrind a hithe.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Caernarfon Industrial Supplies

BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Boltiau, "Fasteners",
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn
y fro.

Discownt o
25% ar Dŵls



LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

PLAID CYMRU: Enillwyd y Clwb Cant gan

Hydref

£15: Mrs Ann Pritchard, Stryd Newton (26)

£10: Mrs Eirlys Elis, 12 Stryd y Cae (21)

Tachwedd

£15: Mr Arwyn Roberts, Cartrefle, Rhosgadfan (41)

£10: Mrs H Jones, Stryd Turner (36)

Rhagfyr

£50: Mrs Jane Williams, 3 Stryd y Dŵr (50)

Rhifau ar gael gan Mr Gwilym Evans, Tŷ Crwn neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

CLWB Y MAMAU: Ar Ragfyr 12 cafodd y mudiad uchod eu cinio Nadolig yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Yr oedd pawb wedi mwynhau ei hun yn fawr. Diolch i Ann Jones, 16 Dol Elidir am drefnu y noson a'r adloniant ac i'r swyddogion sef Lyn Ellis, Janet Vaughan ac Ann Jones, Lôn Clegir.

YSGOL PENDALAR: Ar Ragfyr 17 yr oedd Cyngerdd Nadolig yn Ysgol Pendalar. Yr oedd y plant bach yn werth eu gweld, yr oedd yn wefr cael bod yno. Diolch i Mrs Catherine Jones, y Brifathrawes am y gwahoddiad i aelodau Clwb y Mamau. Yr oedd chwe plentyn o'r ardal yn cymryd rhan sef Janet a Linda Pitt, Darren a Dylan Jones, Gareth Roberts a Shaun Foulkes.

YMDDIHEURIAD: Cafodd y diochiadau isod eu gadael allan o'r rhifyn diwethaf o'r Eco:-

Dymuna Ann a Kelvin Jones, Stryd Newton ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ceri Wyn.

YSGOL FEITHRIN: Dydd Mercher, Rhagfyr 17 cafodd plant y mudiad uchod eu Te Parti Nadolig yn y Ganolfan. Ymwelodd Sion Corn â'r plant i roi anrheg iddynt.

DIOLCH: Dymuna Mrs Catherine Williams ddiolch i Mr Branagan o Adran Llanberis o'r Lleng Brydeinig am yr anrhegion i'r plant.

EGLWYS SANT PADARN: Nos Sul, 21 o Ragfyr, cafwyd Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul yn perfformio Drama'r Geni. Gwnaeth y plant eu gwaith yn rhagorol. Diolch i Mr Alun Hawkins ac athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith gyda'r plant ac i Miss Alison Edwards a oedd wrth yr organ. Ar y dydd Llun cafodd y plant De Parti Nadolig a daeth Sion Corn i ymweld â'r plant gydag anrheg iddynt.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad i'r

rhai canlynol:-

Mr Carl Roberts, Stryd Newton ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mrs K Thomas, Maes Padarn; Gwyneth Evans, 17 Stryd Goodman ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mr David Jones, 1 Rhes Olgra sydd yn dal i fynd dair gwaith yr wythnos am driniaeth i Ysbyty Gwynedd; Mr Thomas John Roberts ar ôl ei ddamwain ar ei feic modur, hefyd ei wyres fach Bethan sydd wedi torri ei choes;

Miss Pat Owen, 33 Dol Elidir ar ôl damwain i'w throed; Mr Meirion Thomas, Llain Wen wedi torri ei fraich;

Mrs Lovell, Dol Eilian;

Miss Carol Jones, 27 Dol Elidir ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mr Goronwy Lewis, Stryd Ceunant ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mrs Maud Jones, 1 Stryd y Dŵr ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd; Mrs Madeline Rogers, Stryd Newton; Mr Richard Williams, Stryd y Dŵr.

LLONGYFARCHIADAU: Dymuniadau da i'r rhai canlynol ar ddathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed:

Stephen Hughes, Lon Eglwys; Louise Bernard, Llain Wen; Neil Jones, 2 Dol Elidir; Anita Humphries, Dol Elidir ar Ionawr 25;

ac i'r rhai canlynol ar ddathlu eu pen-blwydd yn un ar hugain oed:

Carol Jones, Dol Elidir; Lyn Jones, Maes Padarn; Iolo Jones, Stryd Turner sydd yn cael ei ben-blwydd ar Ionawr 30. Dymuniadau gorau oddi wrth Mam a Dad ei frodyr a'i chwiorydd, 60 Dol Elidir, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU: Dymuniadau gorau i ti Carys ar dy waith newydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Mae Carys yn ferch i Mr a Mrs Wyn Jones, Capel Coch Road ac wedi gwneud ei phrentisiad fel nyrs yn Lerpwl ers tair blynedd.

GENEDIGAETH: Dymuniadau da i Owain Griffiths (gynt o Llwyn Piod) a Sam ar enedigaeth eu mab bach.

I Carys ac Elfed Morris, Stryd Ceunant ar enedigaeth eu mab bach; I Valerie a'i gŵr, Stryd Fawr ar enedigaeth eu mab bach yn gwneud Mr Cledwyn Parry yn daid am y tro cyntaf a Mrs Williams yn hen nain; I Mr a Mrs Irfon Ellis am fod yn daid a nain am y tro cyntaf mewn deg diwrnod i'w gilydd.

I Sharon a'i gŵr ar enedigaeth eu merch fach, ac i Debra a'i gŵr ar enedigaeth eu merch fach. I Carol (Prydderch gynt o Dol Elidir) a Billy ar enedigaeth eu mab bach.

DIOLCHIAU: Dymuna Mrs Betty Rees Evans (gynt o Rhes Minafon) ddiolch i'w pherthnasau a'i holl ffrindiau am yr holl gardiau ac

anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Cafodd dros 70 o gardiau. Diolch yn fawr i bawb sydd yn rhy niferus i'w hateb yn bersonol.

Dymuna Janet Hughes, Beech Bank ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Marc Parry, Stryd Fawr ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Maud Jones, 1 Stryd y Dŵr ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llw cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl cael triniaeth law feddygol yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mrs Rudkin a'r teulu ar golli ei mam o Gaernarfon.

Mr Robert Thomas a'r teulu ar golli ei frawd.

Mr Dewi Jones a'r teulu oll o golli brawd, sef Mr Twm Eilian Jones (gynt o Frynrefail) nawr o Gaernarfon.

Myra, Nigel ac Alicia Starkey, 44 Stryd Fawr ar golli gŵr a thad, sef Mr Harold Starkey.

Megan Price, 81 Maes Padarn a'r teulu oll ar golli ei mam, sef Mrs Mattie Jones, Plas Pen Gwaith (gynt o Dol Afon, Cwm y Glo).

Mrs Iola Owen, 3 Stryd yr Wyddfa a'r teulu oll ar golli ei thad, Mr William Jones, Plas Pen Gwaith (gynt o Plastirion Bungalows).

Mrs Jennifer Hughes, 10 Stryd y Dŵr ar golli ei nain yn Ynys Môn.

DIOLCHIAU: Dymuna Mrs June Ward, Lorraine a George Williams ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a'r pentrefwyr, doctoriaid a staff y clinic am yr holl gymwynasau a charedigrwydd a

ddangoswyd iddynt tra bu Lorraine yn yr Ysbyty.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ragfyr 11, dan arweiniad Mrs Hannah Jones.

Cydymdeimlwyd â Mrs Lizzie Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn Llanrug.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Gwilym Llyn Roberts o Lanberis yn siarad am ei waith fel Seiciatrydd Cymuned Hŷn. Diolchwyd i Mr Roberts a'r gwestwragedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones. Y gwestwragedd oedd Mrs Betty Jones, Mrs Glenys Jones a Mrs Mair Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Morris. Rhanwyd mins peis gan y gwestwragedd a chawsant eu gwerthfawrogi gan yr aelodau.

CLWB NOFIO CAERNARFON
PENCAMPWRIAETHAU
BLNYDDOL Y CLWB

Rhagfyr 14, 1986

3 nofiwr o Llanberis

Robert Gray-Williams

(o dan 15 oed)

Cyntaf 200 metr 'medley'

cyntaf 100 metr Dull rhydd 'Freestyle'

cyntaf 100 metr nofio Broga 'Breast stroke'

Cyntaf 100 metr Gloyn Byw 'Butterfly'

Ail 100 metr Stroc cefn 'Backstroke'

Cyntaf 25 metr Sbrint

Enillodd Robert gwpan am fod y gorau yn adran y bechgyn hŷn.

Catherine Gray-Williams

(12-13 oed)

Ail 200 metr 'medley'

Ail 100 metr Dull rhydd

Ail 100 metr nofio Broga

Ail 100 metr Gloyn byw

Ail 100 metr Stroc cefn

Trydydd 25 metr Sbrint.

Anna Lloyd Roberts

(dan un ar ddeg oed)

Trydydd 100 metr 'medley'

Pedwerydd 100 metr Dull rhydd

Trydydd 100 metr nofio Broga

Trydydd 100 metr Gloyn byw

Trydydd 100 metr Stroc cefn

Trydydd 25 metr Sbrint.

YMATEB I LUNIAU YSGOL DOLABADARN

Dosbarth Miss Pryce Jones, Ysgol Dolbadarn 1926

Rhes Uchaf: Maelgwyn Jones; Owen Jones (Ynys Wen); Richard Bleddyn (gynt); Jack Ffrainc (ar ei wyliau yn Llanberis ar y pryd, ei dad yn dod o Llanberis ac yn byw yn Ffrainc a dyna pam y gair Ffrainc ar ôl ei enw, tybed beth yw ei hanes).

Ail Res: Tom Gwyn Pritchard (Nant Peris); Arthur Wyn Jones, Brithdir (gynt); Evan Wilson Hughes (gynt); Alun Samuel Jones; Griff Bryn Bedw; John Rees Jones; Thomas John Hughes (gynt); Harri Parry (Llainwen gynt); Eric Lloyd Jones (gynt); Arthur Jones (gynt).

Trydydd Rhes: Robin Roberts (Yanks); John Howard Parry; Dilys Thomas; Megan Coed Mawr; Kathleen Jones (gynt); Katie Pritchard; Jennie Morris (gynt); Mair Evans (gynt); Nellie Jones; Catherine Lloyd Hughes; Grace Annie Jones; ?

Rhes olaf: Alwyn Griffiths (Coed); Gerald Williams (gynt); wedyn bachgen yn byw yn Turner St, ni wyddys ei enw, ac i ddiweddu Robert John (Turner St). Anfonwyd y rhestr enwau gan Mrs M Jones.

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)



BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

FFAIR NADOLIG: Cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel MC Brynrefail nos Iau, Rhagfyr 11eg. Agorwyd y noson gan y Gweinidog, y Parch John Morris, cyn i bawb fwrw iddi i wario eu harian mewn amryfal ddulliau. Roedd y Ffestri'n llawn o atyniadau i bob oed, yn fyrrddau gwerthu a phob math o chwaraeon. Wedi noson gymdeithasol lwyddiannus a hwyliog, pryd y daeth mwyafrif yr aelodau ynghyd, gwnaed elw o £226. Enillwyr y gwahanol weithgareddau oedd: Helfa Drysor - Kathy Williams, Marino; Dartiau - Rodney Roberts, 1 Minffordd; Llinell goll - Mr Ken Jones, Cae Coch; Dydd pen-blwydd y ddol - Nicola Houston, 2 Trem Eilian; Dyfalu nifer pys mewn potel - Mr Ken Jones; Raffi: Hamper (rhodd Mrs Jennie Roberts) - Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc; Cacen Nadolig o waith Eluned Roberts - Mrs Jennie Hughes; Gateaux o waith Mrs Pat Jones - Miss Lowri P Roberts, Godre'r Coed; Bocs siocled (rhodd Mrs Hannah J Jones) - Mr Ken Jones; Tun Bisgedi (rhodd Mrs Gwyneth Williams, Bethel) - Mr Islwyn Jones, 3 Trem Eilian. Dymuna swyddogion y pwyllgor trefnu, Mrs Pat Jones (ysgrifennydd), Mrs Betty Owen (trysorydd) a Miss L P Roberts (llywydd) ddiolch am gefnogaeth y pwyllgor lluosog o ferched a chynrychiolaeth o ieuencid a ddaeth ynghyd i drefnu'r noson ac am ymateb mor rhagorol, mewn cyfraniadau a rhoddion ac i'r oll a ddaeth ynghyd heb anghofio'r meibion, ar noson a brofodd yn wir fwynhad i bawb.

OEDFA NADOLIG: Nos Sul, Rhagfyr 14eg, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Eglwys MC Brynrefail, dan ofal plant ac ieuencid yr eglwys a gyfrannodd mewn darlleniadau, gweddïau, unawdau, deuawdau ac adroddiadau ynghyd â'r gynulleidfa a gymerodd ran mewn canu carolau. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Parch John Morris yn cael ei gynorthwyo gan Mrs Mair Davies, Mrs Carol Houston, Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri P Roberts. Cymerwyd rhan gan Eluned Roberts, Meinir a Marian Jones, Alwen a Caron Jones, Einir, Catrin ac Owain Gwyn, Nicola Houston, Glenda a Paula Walters, Joanne, Maria ac Eira Wyn Evans a Rhian Davies.

LLONGYFARCH: Rydym eisoes yn ymwybodol o ddawn artistig Mrs Moira Ellis, Gwledfa, ac felly, nid syndod oedd deall i Siop Dr Barnado yng Nghaernarfon, lle mae'n gweithio, ennill yr ail wobwr am addurno ei ffenestri ar gyfer y Nadolig yn nosbarth y siopau

bychain. Mrs Ellis oedd yn gyfrifol am y gwaith a ddaeth a'r wobwr i'w rhan. Llongyfarchwn hi yn galonnog iawn ac am yr holl waith da a wna ynglŷn â'r Gymdeithas. Buddiol hefyd yw dwyn i sylw y cynhelir Arddangosfa "Hundred Years of Caring" yn y Llyfrgell yng Nghaernarfon yn ystod y ddwy wythnos gyntaf ym mis Mawrth i ddathlu canmlwyddiant gwaith Cymdeithas Dr Barnado o ofalu am blant yng Nghymru.

GWASANAETH NADOLIG: Nos Lun, Rhagfyr 15fed, braint oedd cael estyn gwahoddiad, ar ddymuniad y Prifathro, i ddisgyblion Ysgol Gynradd Cwmyglo i gynnal eu gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Brynrefail. Cymerwyd rhan gan y plant mewn gwasanaeth traddodiadol wedi ei seilio ar arferion gwyliau paganaidd a gynhelid yn nghyfnod y gaeaf ynghyd â thraddodiadau o wledydd cyfandirol sydd erbyn hyn ag arwyddocad Cristnogol yn perthyn i Wyl y Nadolig. Drwy gyfrwng gwaith llafar, meim a charol, cawsom weledigaeth eglur i rai arferion Nadolig sy'n eiddo i ni bellach, fel addurno a choed bytholwyrdd, arfon cardiau, rhoi a derbyn anrhegion a goleuo canhwylau, yn ogystal â chael ein tywys i awyrgylch y Geni ym Methlehem. Roedd y plant dan gyfarwyddyd y prifathro Mr Idriswyn Roberts a'u hathrawon, Mrs E Howell a Mrs E Morris. Diweddwyd y gwasanaeth drwy weddi gan weinidog yr Eglwys, y Parch John Morris.

RALI GAROLAU: Fe brofodd y noswaith Rhagfyr 16eg yn fendith o'r mwyaf pan gynhaliodd Sefydliad y Merched Gwyrfaei eu Rali Garolau yng Nghapel Brynrefail. Cafwyd gwasanaeth teilwng o fawl Nadolig mewn awyrgylch gynnes a chartrefol dan arweiniad Mrs Beti Williams Jones, Caernarfon a Miss Lowri P Roberts wrth yr organ. Croesawyd y gwahanol ganghennau i'r cyfarfod gan Mrs Pat Jones, llywydd y gangen leol. Roedd y rhannau arweinïol dan ofal Mrs Jennie Roberts, Glandwr, a chanwyd deuawd gan Mrs Betty Owen, Tros yr Afon a Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian. Cyfoethogwyd y gwasanaeth ymhellach gyda chyfraniadau o'r gwahanol ganghennau oedd yn bresennol sef Llanberis, Portdinorwic, Arfon a Phontrug. Cafwyd gair o ddiolch gan Mrs Katie Wyn Jones o gangen Waunfawr a chyhoeddwyd y Fendith gan y Parch John Morris. Wedi'r gwasanaeth, trôdd pawb o'r Capel i'r Ffestri i fwynhau lluniaeth ysgafn a blas

Nadolig arno, wedi ei baratoi gan aelodau Cangen Brynrefail.

PROFEDIGAETHAU: Bu Gŵyl y Nadolig yn achlysur trist i ddau deulu yn y pentref. Ychydig ddyddiau cyn yr Wyl, bu farw Mr Hasson, Bryn Myfyr a Mr Thomas Evans, 4 Trem Eilian. Yna ar drothwy'r Flwyddyn Newydd daeth y newydd brawychus am farwolaeth Mr Tom Eilian Jones, Caernarfon, un a fagwyd yn y pentref, yn fab i Mr Thomas E Jones, a'r diweddar Mrs Gwyneth Jones, 2 Ffrwd Madog. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Mr a Mrs T Evans, 4 Trem Eilian, Mrs A Hasson, Bryn Myfyr a Mr T E Jones, 2 Ffrwd Madog yn eu galar a chydha pherthnasau agos eraill ymhell ac agos yn eu profedigaeth.

PARTION NADOLIG: Bu'r hen a'r ieuanc fel ei gilydd yn dathlu'r Wyl gyda'u partion arferol. Mwynhaodd plant yr Ysgol Sul eu parti nos Fercher, Rhagfyr 17eg yn y Ffestri yn cael ei ddilyn gan Barti a Disco'r Clwb Ieuencid. Nid ar Dachwedd 20fed, fel y tybiodd Cwmni Bysiau KMPi yr aeth Clwb Gweithgareddau'r Pentref am eu gwledd Nadolig hwy i Henllys Hall ond yn hytrach ar Ragfyr 20fed a chael noson ddiffr. Gwesty'r Prince of Wales yng Nghaernarfon oedd cyrchfan Clwb y Mamau a Sefydliad y Merched a chafwyd noson wrth fodd pawb.

CLWB Y MAMAU: Nos Lun, Ionawr 12fed, cafwyd cwmni Mrs Alwen Mai Roberts o Lanberis gydag arddangosfa o waith o'i heiddo ar beiriant gwau. Paratowyd lluniaeth y noson gan Mrs Jennie Roberts, Glandwr a Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian. Rhoddwyd y wobwr raffl gan Mrs Linda Humphreys ac fe'i henillwyd gan Mrs Pat Jones, Cae Coch.

GWASANAETH DECHRAU BLWYDDYN: Cynhaliwyd

gwasanaeth arbennig o ddiolch ac o ddeisyfiad am fendith ar y Flwyddyn Newydd yng Nghapel MC Brynrefail nos Sul, Ionawr 18fed. Arweinwyd yn y gwasanaeth dechreuol gan y Parch John Morris, ac yn dilyn cymerwyd rhan, ar y themau Gweddï, Cymwynas a Chyfeillgarwch, gan Mrs Jennie Roberts, Glandwr, Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant, Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, Mrs Betty Owen, Tros yr Afon a Mrs Pat Jones, Cae Coch. Canwyd emynau pwrpasol o'r Atodiad. Yr organyddes oedd Miss Lowri P Roberts, Godre'r Coed a llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwilym Wyn Williams. Diweddwyd yr oedfa gan y Gweinidog.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Bu'r gangen y mis hwn ar ymweliad ag Angorfa, Llanberis, sef cartref y diweddar fardd a'r llenor T Rowland Hughes. Cafwyd sgwrs gan Mr Islwyn L Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanberis, a fu'n amlwg yn y gwaith o sefydlu amgueddfa yn Angorfa sy'n coffau llawer agwedd o fywyd a chyfraniad T Rowland Hughes i lenyddiaeth ein cenedl. Mwynhawyd darpariaeth flasus o luniaeth wedi ei baratoi gan Mrs Audrey Roberts, Rallt a Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Enillwyd y wobwr raffl a gyflwynwyd gan Mrs Rhian Owen, 3 Trem Eilian gan Mrs Gwyneth Williams.

Dyddiadau i'w cofio

Mawrth 20: LLANBERIS: 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr Elw er budd Cymdeithas Brydeinig y Galon.

MAWRTH 21: Cinio blynyddol Clwb Rhos Bethel.

EBRILL 10: LLANBERIS: 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd yr RSPCC.


Mae mwy o ddewis nag erioed gan
JOHN A ROBERTA GRIFFITH
Y STORFA SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agorod 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agorod tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i danfonwn at eich drws

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON LLANRUG
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Oed yr Addewid

Gan fod ein cyn-weinidog hoff a ffyddlon, y Parch W O Roberts yn cyrraedd 'Oed yr addewid' sef 70 mlwydd oed ar y 15fed o Ionawr 1987, brant ydyw cael ei longyfarch yn galonnog a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol ac hefyd i'w briod, Mrs Roberts, sy'n 'angyles o ddynes dda'.

Dirwestwr hawdd ei drystio - ydyw ef.

A nod ei Dduw arno:
A gwedd ddwys mawrygodd o
Y swydd roes Iesu iddo.

Glan Rhyddallt

Y Dwyreinwynt

Y mae'r tywydd wedi oeri ac felly credaf fod yr englyn canlynol yn bur amserol:

Y Dwyreinwynt dirinwedd - ni char neb

Ei chwynn ubain rhyfedd:

Hwn yrr fil i gynnar fedd,

Yn ddelwau o'i ddialedd.

G Rh

Y Twrch Daear

Pan yn teithio ar y bws i'r Pafiliwn yng Ngorsedd y Beirdd yn Abergwaun 1986, addawodd Mr Francis Thomas, Carno, Powys anfon ambell englyn o'i waith i mi. Dyma un a diolch yn fawr iawn iddo. Gobeithio y daw'r awen heibio fel y cawn ragor. Ni welais englyn i Dwrch Daear ers blyneddau. Marciau llawn Mr Thomas!

Wr y gŵys yn 'fur' i gyd - o'i dwne!

Mae'n denant pryfoelyd:

Rhwydd yr â dan wraidd yr yd,

Arglwydd faer y weigloddwyd.

Francis Thomas, Carno

Anrheg o Chwarel Dinorwig

Pan oedd Griffith Enoc Williams, Cwm-y-glo yn ymneilltuo o Sinc Bach Braich, Chwarel Dinorwig, Mai 1926, cafodd ffon yn anrheg gan Hogiau'r Bonc. Fel hyn y canodd fy nhad i'r amgylchiad:

Gruffydd Williams, bob amser,

Oni fu ar onnen fer?

Yn awr gwell i'r henwr gwyl

Ffon union a phen annwyl.

Hogia'r Bonc a'i gwna'n sioncach,

Sionc a byw yw llur Sinc Bach.

Ei chario wnaed i'r chwarel

Prisiant oll y present del.

Ar Gruffydd bydd hir graffu,

A phen y gamp yw'r ffon gu.

Ei gam glir i Gwm y glo,

Rhyfeddod hir a fyddo.

Dy hen ffon gam fel dameg

Yn awr tafi yr henwr teg.

A chymer hon: ffon a phwyll

I ddedydd rodio'n ddiidwyl.

Ei bagal a yrr y bwgan

A'i lid hyl i waelod tân.

Na âd hon byth yn y tŷ

O olwg i'w chornelu.

Ar fer hynt o arfer hi

A phen taith faith ni fethi.

G Rh

R J Penlon gafodd

Y Watch yn Anrheg

Yr athro teg anrhegwn, - dawn Robert

Ein Rabbi fawrygwn;

Yn wir, haeddol y rhoddwn

Oriawr aur i'r arwr hwn.

G Rh

Ymdeol o waith y Post

Wedi 24 mlynedd o wasanaethu yn y Post yn Llandwrog, 1931-1955, cafodd John Williams, fy mhriod a minnau gadair esmwyth bob un yn anrheg gan bobl yr ardal. Anfonodd Glan Caledffrwd, Llanrug yr englynion canlynol i ni a darllenwyd hwy mewn cyfarfod ffarwelio.

Yn y post heb ymffrostio - yn ddiwyd

Bu'r ddau yn cyd-weithio;

A heno'n frwd myn y fro

Aw'r o hwyll wrth ffarwelio.

Dau arwr mewn cadeiriau - a fyddant

Cant fudd mewn cyfrolau;

Saib felys ga'r ddawnus ddau,

A'u gwaith fydd gwneud pregethau.

Tegerin yw'r tŷ gorau - yn y lle

Mae yn llawn trysorau;

Bwth dan gamp o swm stampiau

Bwth a ddeil am byth i ddau.

Bwth annwyl i breswyllo - a bwth del

Bwth da iawn am groeso;

Mair eirian sy dan ei dô,

A Sionyn yw'r boss yno.

Glan Caledffrwd

JOLI BOI

CWMNI CYFRI TRI

Cyn bo hir, bydd CC3 yn perfformio eu cynhyrchiad diweddaraf, sef JOLI BOI, mewn theatrau, neuaddau cymuned ac ysgolion led-led Cymru.

Mae'r project hwn yn gam newydd ym myd y theatr Gymraeg - pedwar o berfformwyr o wahanol feysydd yn dod at ei gilydd i gyfuno'u syniadau a'u doniau gan greu perfformiad gwreiddiol ac anturus. Ond er bod JOLI BOI yn fenter newydd, y mae, hefyd, yn dilyn traddodiad gwaith blaenorol y Cwmni, gan dynnu ar ein diwylliant traddodiadol a chyfoes i greu gwaith mentrus a newydd, sydd ag apêl eang i gynulleidfaoedd o bob oed.

Golwg drwy lygaid gonest plentyn a geir yn JOLI BOI - golwg ar yr hyn a wêl, yr hyn a glyw ac ar yr hyn a wna oddi mewn i'r gymdeithas glos y caiff ei fagu ynddi. Drwy lygaid diniwed y plentyn, gwelwn fywyd byrlymus y pentre', y tabws, y gwallgofrwydd, y digwyddiadau a'r cymeriadau - golwg hapus a diniwed ar yr hagrwrch a'r caledi sy'n ei aros. Fely tyf y plentyn, daw'n rhan o'r gymdeithas honno, ac amlygir ei wallgofrwydd yntau, a gaiff yn y pendraw, ei dderbyn fel y norm.

Sioe i'r teulu yw hon; sioe weladwy yn ogystal â geiriol; yn llawn symud, lliw, cân, cerdd a geiriau. Yn cymryd rhan yn JOLI BOI mae Jeremy Turner (o Aberdâr - actor a chyfarwyddwr y Prosiect), Eryl Ellis (o Benmachno - arlunydd a pherfformiwr), Dylan Davies (o Rosllanerchrugog - dawnsiwr a cherddor) a Mari Rhian Owen (o Lanfyllin - actores a chantores).

Cynhelir perfformiadau cyntaf o JOLI BOI yn y Peacock Theatre yn Nulyn, fel rhan o Wyl Theatr yr Abaty, sef theatr genedlaethol yr Iwerddon. Bydd y sioe ar daith led-led Cymru ym mis Chwefror a Mawrth.

Ceir manylion o'r daith yn y wasg genedlaethol yn y dyfodol agos.

Peidiwch â cholli'r cyfle i weld perfformiad o'r cynhyrchiad anturus

JOLI BOI

pan fydd yn ymweld â'ch ardal chi!

Am ragor o fanylion, cysyllter â:-

Linda Wyn Jones

CWMNI CYFRI TRI

Blwch SP 37

Aberystwyth Ffôn: 0970 611223

LLYFRAU NEWYDD CYMRAEG

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

EBENEZER, Lyn

Clecs Cwmderi

Hughes £2.50

Pigion difyr am y gyfres deledu

'Pobol y Cwm'

ELLIOT, Gordon

WILLIAMS, Howard Alun

(Addas)

Dyn a'i Gynefin

D Brown a'i Feibion

Cyf £4.95

Y trydydd llyfr mewn cwrs

cyflawn o bedwar i blant yr adran

iau.

EVANS, Hazel Charles

Newid Byd

Cyhoeddiadau Mei £1.20

Y nofel ddiweddaraf yng

Nghyffres y Fodrwyl.

Gweddio 1987

Y Swyddfa Genhadol,

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

£1.30

Llawlyfr defosiwn wythnosol ar

gyfer 1987.

HUGHES, Mair Wynn

Hydref Gobeithion

Tŷ ar y Graig. £1.75

Nofel ar gyfer pobl ifainc yn eu

harddegau.

JONES, Siân

Symud 2. £1.25

Symud 3. £1.25

Symud: Nodiadau'r Athro £1.50

Y Ganolfan Adnoddau, Coleg

Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Cyffres ddaearyddiaeth newydd i

ysgolion uwchradd (Cyffres

Symud)

Llyfr Nadolig Mabon a Mabli

Mudiad Ysgolion Meithrin 75c

Llyfr o bosau a lluniau i'w lliwio

ar gyfer y plant lleiaf.

O Doed a'ch Offer Sain 75c

Seren Nadolig 45c

Y Mae Afon 60c

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Corws, carol ac anthem wedi'u

hargraffu o'r newydd.

PARRY, Geraint W

Trysor o'r Dyfnder

Gwasg Gomer £2.75

Nofel am yr Ail Ryfel Byd ar gyfer

pobl ifainc yn eu harddegau.

STRANGE, Morfudd

KINNEY, Phyllis

Chwarae Dan Ganu

Gwasg Gomer £4.95

Cyrol o ganeuon i'r plant lleiaf

WILLIAMS, Dewi

Chwareli a Chloddfeidd yn y

Pennant

Cyngor Sir Gwynedd -

Gwasanaeth Llyfrgell 75c

Hanes chwareli a chloddfeidd

ardal y Pennant ger Porthmadog.

WILLIAMS, Melfyn R

Cyflyrau Mater

Gwasg Gomer £2.00

Y diweddaraf yn y gyfres Bioleg,

Project Defnyddiau ac Adnoddau

y Swyddfa Gymreig.

Dechreuad Newydd

Antur Teifi £1.25

Llawlyfr i fenywod mewn

ardaloedd gwledig, sydd wedi

penderfynu dychwelyd i'r

gwaith.

STANLEY, JOHN, E. (Gol)

Y Gair a'r Genedl

Tŷ John Penry £9.95

Cyrol deyrnged i R Tudur Jones.

JONES, Alun L.

JONES, John Pinion (Goln)

Gardd o Gerddi

Gwasg Gomer £6.75

Detholiad o gerddi cynganeddol i

blant.

JONES, Sŵ Gerallt

Dwylo ar y Piano

Y Lolfa £2.95

MILLER, Carey

Popeth am Anghenfilod

Gwasg Gomer £2.25

Llyfr cyntaf mewn cyfres newydd

sy'n sôn am ddirgelion yngllŷn

ag anghenfilod chwedlonol a

rhai oedd yn bod.

Cyffres byd yr Anhysbys)

ROBERTS, Gwilym

Ribidires o Atebion Gwil

Hughes £1.95

Llyfr i blant. Seiliwyd ar y

cwestiynau am fyd natur a

ofynnwyd i Gwilym Roberts gan

warandawr Ribidires.

Sion Blewyn Coch

Hughes £2.95

Stori Nadolig am deulu Sion

Blewyn Coch a Sian Sleib Bach.

WILLIAMS, Anwen P

Antur Elin a Gwenno ar Lyn

Tegid

Gwasg Carreg Gwalch £1.80

Nofel antur i blant.

WILLIAMS-DAVIES, John

Seidr: Diod Gadarn yr Afallen

Gwasg Carreg Gwalch

1.20

Golwg ar y dull o gynhyrchu

seidr 'slawer dydd'. (Cyffres

Llyfrau Llafar Gwlad)

WOODMAN, June

PHILLIPS, Julie (Addas)

Arthen Arth yn y Syrcas

Cardi'r Ci yn Gweld Ysbryd

Pen-blwydd Carlam Cwningen

Wini'r Hwyraden Wirion

Gwasg Gomer £1.50 yr-un.

Llyfrau print bras, lliwgar, ar

gyfer plant sy'n dechrau darllen

ar eu pennau eu hunain.

(Cyffres Gallaf Ddarllen wrthyf fy

Hun)

WYN, Hefin

Siôn a Siân

Cyhoeddiadau Mei £1.00

Hanes y gyffres o'r cychwyn

gyntaf - y cyflwynwyr, y

tywysferched, y cyfrinachau -

ynghyd â nifer o gwestiynau i'r

gŵr ac i'r wraig.

CEFNOGWCH

EIN

HYSBYSEBWYR

EMYR JONES

PLYMAR PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

ADREF O'R YSBYTY: Bu nifer o'r pentrefwyr yn cwyno yn yr ysbty yn ddiweddar a chroesawn gartref Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen; Mr Idris Owen, Llys Awel; Neil Owen, Dol Erddi; Mrs M A Owen, Tref Eilian a Rhion Glyn, Stad Tŷ Hen. Gobeithio eu bod yn gwella.

YN YR YSBYTY: Dymunwn lwyd adferiad buan iawn i'r trigolion rheiny sydd yn parhau yn yr ysbty, ac anfonwn ein cofion atynt, sef Mrs Jones, Fron Hyfryd; Mr R O Jones, Tan y Waun a Mrs Clayton, Bro Waun.

DIOLCH: Dymuna John a Sioned, Stad Tŷ Hen, ddiolch yn gynnes iawn am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeu eu mab bychan, Rhion.

LLONGYFARCHIADAU: I Ann Dawson, Bro Waun, ar ei dywedd i Dean Clark o Landwrog; I Terry Parry, Bro Waun, ar ei ddywedd i Lorna Jones o Gaernarfon;

I John a Heulwen Huws, Argoed, ar enedigaeth merch fach, Elin, chwaer i Lowri a Rhys;

I Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian, ar fod yn daid unwaith eto;

I Mr a Mrs Harry Griffiths, Llys Helen (sydd wedi dod i fyw i'r Waun o Gaernarfon) ar fod yn daid a nain eto; I Mr a Mrs John Dawson, Bro Waun, ar fod yn daid a nain eto. Ganwyd mab i'w merch Susan; ac i Mrs Gladys Jones, Tref Eilian - mam Mrs Dawson ar fod yn hen nain;

I Mr a Mrs Elfed Roberts, Dwyrws, ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

I Roger a Marged Dafydd, Glanfa, ar enedigaeth merch fach, Eysyllt Susanna, chwaer i Gwenlli a Llion.

ARHOLIADAU CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant:

Theori:

Gradd 1: Meilir Gwynedd, Nant

Gradd 4: Karen Roberts, Swyn y Gwynt

Gradd 5: Helen Hughes, 15 Tref Eilian a Sian Llwyd, Dol-y-Coed.

Piano:

Gradd 3: Rhys Sion, Pant Teg

Gradd 5: Helen Hughes, 15 Tref Eilian (Teilyngdod)

Gradd 5: Ioan Gwyn Thomas, Treforfan

Clarinet:

Gradd 7: Ioan Gwyn Thomas, Treforfan (Teilyngdod)

PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Rhagfyr:

1. Dic Jones, Llwyn Onn

2. Ifanwy Rhisiart, Bod Afon

3. Marion Iwan, Penberth.

YR URDD: Dechreuodd tymor y Pasg

at Ionawr 7fed pan ddaeth Jane Williams, y Swyddog Datblygu i gynnal chwaraeon yn neuadd fawr y Ganolfan. Chafwyd ddim cyfarfod nos Fercher, Ionawr 14 oherwydd y tywydd mawr.

Hwn hefyd yw tymor yr eisteddfodau. Mae gan Mrs Marston barti recordyddion ac maent wedi dechrau ymarfer. Os oes ar unrhyw aelod eisiau cystadlu yn unigol, yn y cystadleuthau llwyfan neu waith cartref, mae'r manylion i'w cael gan Beryl Jones, Dol-y-Coed.

Cynhelir Eisteddfod Cylch dan 12 oed dydd Sadwrn, Chwefror 28.

Nid yw'r Urdd wedi cael lle addas i gadw'r papur newydd eto, felly peidiwch a chasglu'r papur ar hyn o bryd. Diolch.

LLONGYFARCHIADAU: i Kevin Roberts, Swyn y Gwynt, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed.

DIOLCH: Dymuna Kevin Roberts a'r teulu, ddiolch yn fawr iawn am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Kevin ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

DIOLCH: Dymuna Rhian Hughes ddiolch i'r athrawon, staff atodol, y plant a'u rhieni, am eu rhodd garedig ar achlysur ei hymadawiad o'r ysgol.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr:

1. £40: Haydn Jones, Rhandir Mwyn

2. £25: Mrs Rose Anne Hughes, 15 Tref Eilian

3. £10: Iolo Huws Roberts, Bodrida. Hefyd talwyd 4 gwobr ychwanegol o £10 i:-

Mrs Evelyn Anderson, 11 Tŷ Hen;

Mrs Mavis Allen, Penybont; Treflyn

Thomas, Treforfan ac Alwyn

Williams, Garreg Fawr.

CYDYMDEIMLWN Yn fawr iawn â Mr Eric Jones, Tref Eilian, yn ei brofedigaeth sydyn o golli tad.

LLONGYFARCHIADAU i Meira Turner, Collfryn, ar ennill y wobwr gyntaf a Chwpan am y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Betws yn Rhos ger Abergele ar Ionawr 1, a hefyd ar ddod yn gydradd gyntaf ar Adrodd o'r Ysgrythur, ac ennill y wobwr gyntaf gyda Margaret ar y ddeialog. I Alun ac Wmffra am ennill y wobwr gyntaf ar y ddeuawd, y ddau am ddod yn gydradd ail ar yr Unawd Gymraeg, i Alun am ddod yn gyntaf ar y Gân Werin ac Wmffra yn ail, i Wmffra am ddod yn ail ar yr Emyrn ac Alun yn 4ydd.

Llongyfarchiadau i Meira eto ar ennill y wobwr gyntaf a Chwpan am y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Bwlchtocyn ar Ionawr 10, ac i Wmffra ac Alun ar ddod yn ail ar y ddeuawd ac Alun yn bedwerydd ar yr Emyrn.

PWY OEDD RICHARD H JONES?: Yn ddiweddar daeth i feddiant Rol

Williams, Ardwyn, 5 Pant y Waun, lun o fedd un "Richard H Jones, gynt o'r Waunfawr, swydd Arfon, Cymru" a fu farw yn Vermont, USA, ar yr 8fed o Fai, 1863 yn 47 oed. Ar yr un garreg fedd fe nodir i'w wraig Mary farw ar y 12fed o Fedi 1873 yn 56 mlwydd oed. Oes rhywun all egluro pwy oedd y Richard H Jones hwn? Credir ei fod yn gweithio yn y chwarel yn Vermont, ac o bosib yn gweithio yn un o chwareli'r ardal hon cyn ymfudo.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd bore 'Paned a Mins Peis' yn y Ganolfan, fore lau, Rhagfyr 11eg. Daeth tyfra dda ynghyd i fwyta'r mins peis blasus a dewis nwyddau o'r stondinau amrywiol. Enillwyd gwobrau'r raffl gan Bethan Williams, Marged Dafydd a Llinos Cadwaladr. Diolch i Catherine, un o enethod Antur Waunfawr am ddod i helpu. Diolch yn fawr i bawb a fu'n helpu neu'n cefnogi. Cafwyd bore pleserus iawn.

PARTI 'DOLIG Y PLANT: Cynhaliwyd parti i blant bach yr Ysgol Feithrin ar Ragfyr 18fed. Diolch i Sion Corn am gofio am yr Ysgol Feithrin ynghanol ei brysurdde! Fe alwodd heibio i ddweud gair wrth y plant a rhannu anrhegion iddynt. Roedd y plant wrth eu bodd hefyd efo'r bwyd blasus a baratowyd gan ferched y pwyllgor. Diolch i bawb am eu help.

SIOE CWMNI'R LLECHEN LAS: Bydd amryw'n cofio'r hwyl a gafwyd yn y Ganolfan fis Chwefror y llynedd pan ddaeth Cwmni'r Llechen Las i berfformio'u pantomeim. 'Cocos Cocos'. Y newydd da yw eu bod nhw wedi cytuno i ddychweld eleni i berfformio'u sioe newydd 'Po ha!' Dewch hen ac ifanc yn llw i'r Ganolfan nos Lun, Chwefror 16 am 7.30 i weld y sioe gan y cwmni talentog hwn.

YR YSGOL: Amser prysur iawn oedd wythnos olaf tymor y Nadolig yn yr ysgol. Nos Lun bu Côr Plant yr Ysgol dan arweiniad Mrs Eames yn diddori Clwb y 'Gateway' yn Ysgol Pendalar, Caernarfon. Dydd Mawrth oedd diwrnod Te Parti Nadolig, acymwelodd Sion Corn i roi anrheg i bob plentyn. Nos Fercher, â'r Ganolfan dan ei sang, cafwyd 'Gwasanaeth Nadolig' pryd y perfformiwyd Drama'r Geni gan y ddau ddosbarth Babanod wedi eu hyfforddi gan Mrs Ellis a Mrs Hughes. Darllenwyd darnau o'r Ysgrythur gan blant yr Adran lau a chafwyd eitemau gan Gôr yr Ysgol a'r Offerynwyr dan arweiniad Mrs Eames. Dydd lau, cafwyd y Cinio Nadolig wedi ei baratoi'n ofalus gan Mrs Ann Edwards, y Gogyddes a Staffy Gegin. Prawn lau ymunodd Côr yr Ysgol gydag aelodau Clwb Gwyrfa'i mewn Gwasanaeth Nadolig. Fore Gwener cafwyd gwasanaeth bore arbennig gyda'r Parch Barry Thomas, y rheithor yn bresennol i roddi anerchiad amserol i'r plant.

Prawn Gwener cafwyd cyfarfod byr i ffarwelio â Mrs Rhian Hughes oedd yn ymddeol ddiwedd y tymor. Bu yn athrawes weithgar a chydwybodol iawn yn yr 'Hafod' am gyfnod o dros 7 mlynedd. Talwyd teyrnged iddi am ei chyfraniad gwerthfawr yn yr ysgol a dymunwyd y gorau iddi yn y dyfodol gan y prifathro Mr Leslie Jones. Ategwyd hyn gan Dr A L Miles, Cadeirydd y Rheolwyr. Trosglwyddwyd siec iddi mewn gwerthfawrogiad o'i gwaith gan Sara Williams ar ran y plant, yr athrawon a'r rhieni. Derbyniodd anrheg gwerthfawr hefyd gan Staff y Gegin.

DYDDIADUR Y MIS: nos Wener, 30 Ionawr, 1987 am 6.30 yn Y Ganolfan, Waunfawr - "Ocsiwn Tŷ", tuag at Apêl Sganydd Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Nos Lun, Rhagfyr 15 cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan pan y caed darlith ddifys ar y testun "Hen arferion tymor y Nadolig" gan Mr John O Huws. Llywydd y noson oedd Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt a thalwyd y diolchiadau gan Mr T E Jones, Cartrefle. Cyfeillydd y noson oedd Mrs Mary B Davies, Bryn Eithin. Nos Lun, Ionawr 12, er gwaethaf y tywydd gaeafol, daeth nifer dda i'r Ganolfan i wrando ar sgwrs y Parch Gareth Maelor ar "Bara Brith o'r Blaenau". Llywyddwyd gan Dr Miles a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Pat Parry. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 9, pan y bydd Mr Rhodri Prys Jones yn sôn am ei waith fel Cynhyrchydd Rhaglenni Crefyddol ar y radio a'r teledu ac yna ceir sgwrs gan Mr Elwyn Griffith, Cae Ysgubor, Betws Garmon am ddyddu ci defaid ar gyfer ymrysonfeydd. Bydd cyfle i'r aelodau holi y ddau siaradwr ar derfyn eu sgysiau. Llywydd y noson fydd Miss Marian Wyn Jones. Gofynnir i'r aelodau sydd yn bwriadu dod i'r swper i gloi y tymor ddod a'r arian (£1.50) gyda hwy i gyfarfod mis Chwefror.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys.

Ar y 21ain o Ragfyr 1986 ganwyd merch fach - Anest Parker i Mr a Mrs H Jeffrey Roberts, Bryn Hydd, Bethel. Llongyfarchiadau i'w rhieni ar enedigaeth eu cyntaf-anedig, a phob dymuniad da i'r dyfodol i Anest a'i rhieni.

Y mae Anest yn ail wyres i Mr a Mrs H Jeffrey Roberts, Tainewyddion. Llongyfarchiadau i nain a taid hefyd ac i'r teulu ar yr amgylchiad hapus hwn.

MARW: Dydd Sul, Ionawr 4ydd 1987, bu farw, yn Ysbyty Eryri, Mr Willie Jones, Plas Pen Gwaith, gynt o Nantlle, priod annwyl Mrs Lily Jones, a thad annwyl Mr Alwyn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed, Llanrug a Mrs Iola Owen, Snowdon Street, Llanberis.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i briod, ei fab a'i ferch a'r teulu oll yn eu profedigaeth.


LLONGYFARCHIADAU i Mrs E J Ellis, gynt o 3 Tai Bryngwyn, yn awr o Lys Eiddon, Llanrug ar ddathlu ei phen-blwydd yn 88 oed ddydd Gwener, Ionawr 16.

Llongyfarchiadau, cofion a dymuniadau da i chwi Mrs Ellis o Gapel Tan-y-Coed MC a'r Ysgol Sul. Pob bendith i'r dyfodol.

DIOLCH: Dymuna bensynwyr ardal Tan-y-Coed, trwy gyfrwng Eco'r Wyddfa, ddatgan eu gwerthfawrogiad a'u diolchgarwch i'r cymdogaion hynny a gadwodd mewn cysylltiad â hwy ac estyn cymorth parod iddynt yn ystod y tywydd garw a'r trafferthion ddaeth yn eu sgil. Diolch yn fawr.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' & LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

**NEWYDD
AGOR!
SIOP
BAENT
STORFA
Tŷ NEWYDD**

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

DARLITHIO

Y Gwalch

Roeddwn i mewn cynhebrwng ers dim llawar 'ma yr ochr draw i'r dŵr, mewn rhyw fynwant a dim cysgod cawnan yno, yn gwrando ar rhyw weinidog yn rhoi'r ymadawedig yn y nefoedd, er ei bod hi'n amlwg ers meityn nad oedd o'n gwybod hannar cymaint am ei ffeil o a'r rhai oedd yn gwrando.

Dyma fi wedyn yn ei chlywed hi yn cynhesu yn sydyn, a beth oedd wedi dwad yn glos at fy ochr i i sefyll ond rhyw hogan, ac yr oeddwn i'n meddwl i ddechra ei bod hi o dan yr argraff mai perthynas oeddwn i, achos erbyn hynny, roedd y gwynt oer hwnnw wedi gwneud i ddŵr bowilio o fy llygada fi, a dyma hi'n deud heb ragymadrodd.

"Mi fasan ni yn licio i chi ddwad acw i anerch y gymdeithas lenyddol rhyw noson."

Fydda i byth yn ymddiddori mewn rhyw weithgareddau fel yna fy hun, ond wnes i ddim deud wrthi ar ei ben. Doeddwn i ddim yn dymuno iddi fynd oddi yno ar ei hunion achos roedd hi'n cadw dipyn o'r gwynt oddiarna i.

"Faint haws fasa nhw yn gwrando arna i," medda fi wrthi hi yn y diwadd. "Rhywun o'r coleg a'na ydach chi isio, a dwy neu dair o lythrenna ar ôl ei enw fo. A pheth arall," medda fi, "Taswn i'n cyrraedd ar yr hen sragyn hen feic hwnnw sy' gen i, newydd fod yn ffureta a dwy neu dair o wningod yn hongian allan o fy mhocedi fi, mi fasa yna sôn amdanochi chi."

"Mi faswn i yn dwad i'ch nôl chi hefo'r car," medda hi. "Fasach chi ddim yn golledwr." A dyma hi'n spio ym myw fy llygad i hefo'r llygada glas Mehefin mawr rheiny oedd ganddi hi. Ac mi afaelodd yn fy mraich i bob cam at giat y fynwant. Mae rhai o'r merchad 'ma yn cymeryd lot arnyn nhw eu hunain hefo hen bobol. Ac yr oedd hi'n dal yn daer.

"Mi feddylia i am y peth yn sobor," medda fi yn diwadd i gael madael â hi.

Ond fel tasa rhywbath yn mynnu bod, y noson honno, pan oeddwn i'n barod i fynd i fy ngwely, dyma gnoch ar y drws. Wrth gwrs fydd 'na neb yn dwad i'r fan yma os na fydd o isio rhywbath. Roeddwn i'n gwybod hynny cyn agor, ac mi roeddwn i'n iawn. Rhyw hen wraig oedd yno isio i mi fynd i ddarlithio i glwb yr hen bobol.

Roeddwn i'n meddwl fod ganddi dipyn o nyrf i fod allan felly ar ben ei hun yr adag honno o'r nos, a fuo fi ddim yn fyr o ddweud wrthi. A dyma fi'n deud wrthi yr union beth ddeudais i wrth yr hogan yn y fynwant. Ac yr oeddwn i'n iawn yn meddwl fod ganddi nyrf go gry.

"Wn i ddim be' wnawn i rwan," medda hi fel 'na. "Mi rydan ni wedi gofyn i bawb arall."

Ond es i ddim i'r draffarth i egluro sut y ces i fy nhroi oddiar y busnas darlithio yn y lle cynta.

Mi berswadiodd rhyw gyfaill llengar fi fynd i anerch criw mewn rhyw bentre diarffordd unwaith. "Rhyw hannar dwsin fydd yno wyddost ti," medda fo. "Chymith o ddim ond rhyw ugain munud. Mi wnaiff les i dy fynegiant di."

Roedd yna hen ddesg fawr yn y neuadd 'run fath a honno fydda Lenin yn ei ddefnyddio i siglo'r tyrfaoedd. Ond roedd yna lond tymblar o ddŵr ar ben hon i'r siaradwr, a chyn i'r bobol ddechra dwad i mewn, roeddwn i wedi yfad ei hannar o. A dyna'r camgymeriad mwya wnes i, oedd cyrraedd yn rhy gynnar. Roedd y bobol rheiny yn cael cyfle i fy mesur i, ac ar ôl i mi gyfri hannar cant, mi rois y gora iddi, ac erbyn hynny, roeddwn i yn tueddu i'r farn fod un ai mathematics fy nghyfaill llengar yn wantan, neu fod fy mhoblogrwydd wedi chwyddo tros nos. A dyma fi'n ei glywad o yn dweud fel o bell.

"... wedi dod mor bell ar noson mor anhydrin i'n hanerch ni."

A dyma dawelwch mawr disgwylgar yn syrthio tros y lle, a wyddwn i ddim ar wynab daear beth i ddeud wrthyn nhw, ac yr oedd yna un neu ddwy o genod yn y seti cefn wedi mynd i ddechra piffian. Ond roeddwn i wedi cael un cysur wrth sylwi nad oedd y drws cefn ddim ond dau gam oddi wrth y ddesg, ac mi fuo hynny am wn i yn foddion i mi gael gweledigaeth.

"Gwrandwch," medda fi yn y diwadd. "I arbad amsar, mi gewch ofyn cwestiyna rwan yn lle ar y diwadd. Mi gewch y ddarlith wedyn."

"Am be' mae'r ddarlith?" medda rhyw hen wraig oedd yn ista yn y pen blaen a'i choesa ar led fel sponcyn gwair.

"Clustia," medda fi fel'na ar ei ben.

"Clustia?" medda hi. "Beth sy' gynnoch chi i ddeud am rheini?"

"Roedd 'na rhyw hen fachgan yn Sir Fôn," medda fi, "a'i glustia fo yn chwyddo ar ôl bwyta. A phan aeth o

at y doctor, a thynnu amdano, dyma hwnnw yn deud wrtho fo. 'Ydach chi'n hoff o wningod?' 'Ydw tad, yn sgyt amdany'n nhw' medda fo. 'Mi faswn yn byta un i bob pryd.' 'Mi fydd yn rhaid i chi roi gora iddyn nhw' medda'r doctor felna, 'neu fendiwch chi byth'."

"Beth oedd y matar arno fo?" medda'r wraig wedyn yn daer.

"Micsomatosis pobol," medda finna.

"Cerwch o 'ma chi. Does 'na ddim o'r fath beth."

Ond mae'n rhaid nad oedd pawb yn cydfynd â hi. Roedd yna amryw yn bodio eu clustia, ac yr oedd y genod yn y cefn wedi tynnu gwydra bach o'u bagia ac yn stumio eu gwyneba ynddyn nhw, ac mi sylwais ar un neu ddau wedi mynd i grafu.

Ond fel y gwelwch chi bob amsar hefo criw ansicr, dyma nhw yn holli yn ddwy garfan, ac mae'n rhaid fod y genod o fy mhlaid i, achos roedd yna ddwy ohonyn nhw wedi mynd i ben y seti ac yn gweiddi ar yr hen wraig. "Cauwch ych hen geg."

Wrth gwrs, wnaeth hynny ddim

cyfraniad tuag at ddealltwriaeth na threfn, ac yr oedd y cyfarfod yn brysur fynd yn Ffair Gaer. Roedd y cyfaill llengar yn dal un law i fyny yn ymbilgar am osteg, a'r llall yn dal cadach poced wrth ei dalcen, ac yr oedd o'n dweud wrthi i wedyn na welodd o neb yn cael y fath ddylanwad ar gynulleidfa ond Lloyd George.

Erbyn hynny roeddwn i wedi lloccio'r dŵr i gyd.

"Oes 'na chwanag o ddiod?" medda fi wrtho fo.

"Mae 'na dap yn y cefn 'na," medda fo, a ffwrdd a fi yno, a sodro fy nghog o dano fo, ond pan drois i fy llygad, pwy oedd yn sefyll yno yn dal ambarel wrth fy mhen i, a hwnnw heb ei agor ond yr hen wraig honno.

Dyma fi yn rhoi sponc dros glawdd yr iard gefn honno. (Roeddwn i'n reit springar yr adag honno) a chythru i fy meic a'i goleuo hi.

Oes 'na syndod fy mod i'n cadw'n glir o glybia hen bobol?

NEWYDDION O AWSTRALIA

GENI: I Glenda a Warren Turner, ganed Rebecca Grace ar Fai 18fed, 1986. Un o Lanrug yw Glenda, wedi dod i Awstralia ddeunaw mlynedd yn ôl gyda'i mam a'i thad a'i dau frawd.

YMWELIAD: Unwaith eto croeso i Mrs Maggie Lewis, Madryn Llanrug i'n plith yma yn Sydney. Mae yma unwaith eto ar ei gwyliau, a bellach wedi gwneud llawer o ffrindiau.

PRIODI: Tachwedd 23ain, 1986 yn Eglwys Gatholig Sant Michael, Hurstville, Sydney, priodwyd Alwyn Gwyndaf Roberts a Diana Rosaline Senior. Mab ieuengaf Eurwyn a Grace Roberts, Panania, Sydney (gynt o Fryn Tirion, Llanrug) yw Alwyn. Roedd dwy o neiniau'r pâr yn bresennol. Daeth nain Diana drosodd o Seland Newydd, ac yr oedd nain Alwyn o du ei dad, Ann Wagner o Lanrug gynt, hefyd yno. Yn anffodus, methodd nain arall i Alwyn a bod yno, sef Mrs Rachel Williams, 44 Maes Barcer, Caernarfon.

CYMDEITHAS GYMREIG SYDNEY: Dathlwyd gwyl y Nadolig ar Ragfyr 6ed gyda gwledd yn yr awyr agored. Ar ddiwedd y noson ymwelodd Sion Corn i rannu anrhegion i'r plant.

Os oes unrhyw un o ddarlennwyr yr 'Eco' yn ymweld ag Awstralia, mae croeso iddynt gysylltu ag aelodau'r Gymdeithas. Byddwn yn cyfarfod ar y Sadwrn cyntaf o bob mis am 7.30 yn y Multiculture Centre, 188 Clyde St., Granville. (Ffôn: 771.2666)

PEN-WYTHNOS PAN-GELTAIDD NANT GWRTHEYRN

A ydych yn siarad Cymraeg ac yn awyddus i ddod yn gyfarwydd ac un neu fwy o'r leithoedd Celtaidd? Os ydych, yna trefnwyd Cyrsiau preswyl Pan-Geltaidd at eich dant yng Nghanolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn yn ystod Mawrth 13-15, 1987.

Bwriad y Cyrsiau pen-wythnos hyn, sydd â chefnogaeth yr Undeb Geltaidd yng Nghymru, yw cynnig rhagflaen o'r leithoedd Gwyddeleg, Llydaweg, Gaeleg, Cernyweg a Manaweg. Mae nifer y Cyrsiau a gynhelir yn ddibynol ar yr ymateb â'r galw amdanynt.

Yn ôl Tiwtor Preswyl y Ganolfan Iaith Genedlaethol — y Br Cailean Spencer — "Bydd y Cyrsiau arloesol hyn yn estyn cyfle i wella'r cyswllt rhwng y Celtaid. Er i ben-wythnos ymddangos yn fyr, dylid ystyried yr achlysur yn gychwyniad ac hefyd yn gyfle gwirioneddol i ystyried ffurfio grwpiau a chysiau parhaol led-led Cymru."

Cytunodd Dafydd Fear, Ysgrifennydd yr Undeb Geltaidd, "fod y syniad o gryfhau'r ddolen Ban-Geltaidd, trwy ledaenu gwybodaeth am leithoedd ein gilydd, yn gam pwysig a gwerthfawr iawn. Edrychaf ymlaen at dderbyn ymateb brwdfrydig o blith y Cymry ac o hefyd ein-cydfrodyr a chwiorydd Celtaidd. Diolch, a llongyfarchiadau i'r Ganolfan Iaith Genedlaethol am estyn y cyfle unigryw hwn."

Am ragor o fanylion am y Pen-wythnos Pan-Geltaidd, yna cysylltwch ar unwaith â'r Ganolfan Iaith Genedlaethol, Llanfaen, Pwllheli, Gwynedd.

Ceir gwybodaeth ychwanegol oddi wrth: Cailean Spencer, Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn, Llanfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NN, neu Dafydd Fear, Derydd, Stryd Fawr, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6BN (Ffôn: (0766) 770167) Osian Wyn Jones Cyfarwyddwr

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn: Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

DIOLCH: Dymuna Mrs Dianne Roberts, 21 Bro Rhos a Mr Bruce Edwards, Elidir ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am eu cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mam yn ddiweddar, sef Mrs F Edwards, Caernarfon (gynt o 4 Tan-y-Cae). Diolch arbennig i'r Parch W R Williams am ei gymorth.

Hoffai Dianne hefyd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbty.

MERCHED Y WAWR: Oherwydd y tywydd garw ni chynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr. Mae llawer o'r aelodau wedi derbyn tocynnau raffl i'w gwerthu erbyn hyn. A wnaiff pawb werthu eu tocynnau a dod a'r arian a'r bonion yn ôl i'r cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda.

Nos Wener, Mawrth 6ed, yn Ysgol Brynrefail, cynhelir Ffug-Eisteddfod Merched y Wawr. Dyma restr o'r cystadlaethau cartref

a) Llythyr Caru

b) Parodi - Dacw Mam yn Dwad

c) 10 dihareb gyfoes - Gwobr: Cadair yr Eisteddfod.

Ewch ati i gyd i gyfansoddi.

Mae Merched y Wawr Rhanbarth Arfon wedi ffurfio pwyllgor Chwaraeon. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn un o'r chwaraeon yma, badminton dwbl, dominos, dartiau, tenis bwrdd, nofio dros 50 oed a dan 50 oed, pêl rwyd, gobeithiwn gael nifer o enwau yn y cyfarfod nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol am 7.30 ar Chwefror 11. Y gŵr gwadd fydd Dewi Tomos yn dangos ffilm ar y tymhorau.

CLWB BRO BETHEL: Trefnodd Clwb y Mamau swper Nadolig i holl bensiynwyr y pentref yn Festri Cysegr. Cafwyd gwledd ardderchog ac enillodd llawer un raffl, ac ni ddaeth neb oddiyno yn waglaw gan i weddill y mins peis a'r Bara Brith gael eu rhannu.

Daeth Rovi o Gaernarfon i ddiddori â'i driciau, hefyd cafwyd eitemau gan Mrs Glenys Griffith a Mrs Rita Williams, gyda Miss Manon Williams yn cyfeilio iddynt.

Diolchwyd gan y Parch W R Williams. Dymuna'r pensiynwyr ddiolch yn gynnes iawn i Glwb y Mamau am y wledd a'r diddanwch.

Pnawn Llun Rhagfyr 21ain yn y neuadd, cafodd y pensiynwyr wledd arall wedi ei threfnu gan Mri John Pritchard, Steven Williams ac aelodau gweithgar y Clwb Ieuenctid. Cafwyd gwledd yma eto eleni fel y llynedd.

Trefnwyd gêm o 'Bingo' ac enillwyd amryw o wobrau gan y pensiynwyr.

Diolchwyd gan Mrs Christison a Mrs Bessie Ellis. Dymuna'r pensiynwyr ddiolch o galon i'r ieuenctid am eu meddylgarwch yn trefnu'r wledd a'r gwobrau

CLWB Y MAMAU: Nos Fercher, Rhagfyr 17eg, darparwyd Swper i Henoed y pentref yn Festri Cysegr gan aelodau o'r Clwb. I'w diddanu, fe ddaeth Rovi, y consuriwr enwog o Gaernarfon, ynghyd â Mrs Glenys Griffiths, Mrs Rita Williams a Miss Manon Dauncey Williams. Derbyniodd bob un o'r Henoed oedd yn bresennol anrheg.

Yn ystod y noson Swper yr Henoed tynnwyd Raffl Nadolig Clwb y Mamau a'r enillwyr oedd:-

Twrci - Mrs M E Jones, 13 Penrhyn Avenue, Bangor; Chwisgi - Robin Warrington, Wern, Bethel; Sieri - Claire Hughes, Afallon, Bethel; Siocled - H S Jones, Carreg Goch, Bethel; Bisgedi - Mrs M E Jones, 13 Penrhyn Avenue, Bangor; Tatws - M W Jones, 67 Bro Emrys, Bangor.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a werthodd ac a brynodd raffl er mwyn sicrhau llwyddiant Swper yr Henoed.

YR URDD: Bu plant yr Urdd yn brysur yn codi arian i Apêl y Sganiwr dros gyfnod y Nadolig. Bu aelodau o Gôr Bethel yn eu cynorthwyo a chasglwyd £81. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth. Mae tymor eisteddfodau'r Urdd wedi cyrraedd eto. Cynhelir yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail ar Chwefror 21 i blant dan 15 oed, a Chwefror 28 i blant dan 12 oed. Oherwydd y tywydd ni chafwyd cyfarfod nos Iau 15fed o Ionawr.

Nos Wener, Chwefror 27 cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd. Bydd yn gyfle fel arfer i rieni a ffrindiau gael cyfle i glywed y plant yn canu ac adrodd cyn mynd i'r Eisteddfod.

CYDYMDEIMLAD: Dydd Gwener, Ionawr 2il bu farw Mr Owen Thomas, Tyddyn Difyr. Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Myra Thomas a'r teulu yn eu profedigaeth.

Dydd Iau, Ionawr 15fed bu farw Mr Frank Rhys Jones, Tregarth. Brodor o Fethel oedd Mr Jones ac yn cymryd diddordeb mawr ym mywyd yr ardal ac yng nghapel Bethel. Bydd chwith ar ei ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Gerwyn Jones, Eithinog ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 9fed.

Hefyd Shan W Humphreys, Llwyn Hudol ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 30.

LLONGYFARCHIADAU: i Iona Williams, 1, Tan y Cae ar enedigaeth merch fach dechrau'r mis. Longyfarchiadau i nain a taid, Gwyndaf a Ceris.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

CYDYMDEIMLWN â Mrs J M Williams, Penant, Nant Ffynon, ar golli ei chwaer Mrs Ena Jones, Llanrug, hefyd â theulu y diweddar Mrs Martha Jones (Mattie Gardda gynt) yn eu profedigaeth

LLONGYFARCHIADAU i Mr Dei Tomos, Ty'n Pwll a Janice Parry, Penygroes ar eu dyweddadiad. Dymunwn ddyfodol hapus i'r ddau.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Elinor Old am ennill gwerth £100 o nwyddau yn Siop Leo, Porthaethwy - ei thasg oedd dyfalu beth oedd gwerth llond basged o nwyddau.

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR 354646**

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Dyddiadur y Mis

LLUN, 2: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.

MAWRTH, 3: BETHEL: Clwb Bro Bethel.

PENISARWAUN: Yr Urdd.

MERCHER, 4: LLANRUG: Cangen Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch yn ymweld â Changen Waunfawr.

IAU, 5: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfa.

GWENER, 6: LLANBERIS: Te yr Henoed.

DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

LLUN, 9: BETHEL: Clwb y Rhos.

WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol - noson yng nghwmni Mr Rhodri Prys Jones a Mr Elwyn Griffith.

MAWRTH, 10: PENISARWAUN: Yr Urdd - sgwrs gan Mr Selwyn Griffith.

LLANRUG: Merched y Wawr.

MERCHER, 11: BETHEL: Merched y Wawr - Mr Dewi Tomos yn dangos ffilm ar y tymhorau.

GWENER, 13: DEINIOLEN: Bingo yn

Ystafell y Seindorf am 8.00

CHWFROR 16 a 17: Hanner tymor yr ysgolion.

LLUN, 16: WAUNFAWR: Cwmni'r Llechen Las yn perfformio pantomeim "Po 'hal" yn y Ganolfan am 7.30

GWENER, 20: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

"Bingo a Bwyd" yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd y Tîm Pêl-droed dan 15 oed.

SADWRN, 21: YR ARDAL: Eisteddfod Gylch (dan 15 oed) yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.

MAWRTH, 24: PENISARWAUN: Yr Urdd - "Byd Natur" gyda Mr Duncan Brown.

GWENER, 27: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

SADWRN, 28: YR ARDAL: Eisteddfod Gylch yr Urdd (dan 12 oed) yn Ysgol Brynrefail;

Ffred Ffransis yn annerch mewn cyfarfod yng Nghanolfan Waunfawr am 2.00.

Dyddiadau i'w cofio

MAWRTH 6: Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr yn cynnal Ffug Eisteddfod yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL DOLBADARN

Ar ddydd Mercher, Rhagfyr 10, 1986 cafodd y Dosbarth Meithrin, Adran y Babanod a'r Adran Iau ginio Nadolig bendigedig. Diolchodd y Pennaeth mewn Gofal i holl Staff y Gegin am baratoi'r wledd ac yn arbennig i Mrs D Pritchard am lywio'r cyfan. Dymuna'r Staff adferiad buan i Mrs Y Lovell a oedd yn absennol oherwydd gwailedd. Ar ôl egwyl aeth pawb i'r neuadd i gyfarfod dau Sion Corn yn rhannu anrhegion gwerthfawr iawn i bob disgybl. Rhoddwyd yr anrhegion gan Adran Llanberis o'r Lleng Brydeinig. Diolch i Mr Branagan am drefnu'r cyfan. Y ddau Sion Corn oedd Mr Ted Morris a Mr Iorwerth Williams yn cael eu cynorthwyo gan Mr Ted Toleman.

Am 8.45am bore Iau, Rhagfyr 11, cyfarfu yr holl ysgol yn y neuadd i gael gwasanaeth boreol arbennig. Coffawyd un o gyn-drigolion y pentref a chyn-ddisgybl o'r ysgol, sef y diweddar John Raymond Roberts, a gollodd ei fywyd yn Rhyfel y Falklands. Dymunodd ei dad Mr T J Roberts i'r ysgol roddi plât ar y ddarllefa i gofio am ei fab. Yn ystod y gwasanaeth bendithiwyd yr achlysur gan y Rheithor, y Parchedig Alun Hawkins. Roedd yr Athrawon, Mr T J Roberts a'r Gofalwr, Mr W O Davies yn bresennol.

Bore dydd Mawrth, Rhagfyr 16 daeth Mr D Edwards, Swyddog gydag Adran Diogelwch y Ffyrdd i'r ysgol i ddiddanu'r plant drwy ddangos ffilmiau. Roedd y ffilm gyntaf yn ymdrin â diogelwch plant ar y ffordd a'r gweddill yn gartwnau. Yn ôl ymateb y plant mwynhaodd pawb ei hun yn fawr iawn.

Am 9.30 fore Mercher, Rhagfyr 17, cafwyd Gwasanaeth Nadolig yr ysgol. Roedd pawb yn cymryd rhan,

o'r Dosbarth Meithrin hyd at y Dosbarth Uchaf.

YSGOL BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU i Sharon Vaughan Williams 6(ii) ac Alison Edwards 6(i) ar gael eu dewis i ganu yng Nghôr Ieuenctid Cymru. Yn ystod mis Awst byddant yn canu yng Nghaerdydd, Aberystwyth, yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog, ac hefyd ar gyfer y BBC. Pob hwyl i'r ddwy.

BLWYDDYN YR HENOED: Eleni yw Blwyddyn yr Henoed, ac ar ddydd Gwener y degfed ar hugain o Ionawr, bydd cynrychiolydd Helpu'r Henoed yn dod i'r ysgol i roi sgwrs i ddisgyblion blynyddoedd un, dau a thri ac yna yn rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd nodedig.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:

LLANBERIS 871470

**Contractau
Weirio Tai**

**Cawodydd Trydan
ac ati**



Perchennog: E.P. Hughes

**MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

CHWARAEON

A yw Eich Cymuned yn Colli Allan?

Dafydd Ellis

Wedi gwyliau'r Nadolig, mae llawer ohonom yn teimlo'n euog ar ôl bwyta gormod o bwdin 'Dolig a stwffio gormod o bethau da.

Mae modfeddi wedi eu hychwanegu ar y canol, ac mae'r unigolyn yn teimlo'n euog wrth edrych yn y drych a gweld ei gorff gwerthfawr yn hollol ddisiap; wedyn mae'n addo y caiff ei gorff yn ôl i drefn yn y flwyddyn newydd.

Gall Menter Chwaraeon eich cynorthwyo chi i gyrraedd eich nod. Beth bynnag fo'ch oed, mae gêm sydd yn addas i chi.

Mae Menter Chwaraeon Ardal Gwynedd yn cyflogi pobl gyda chymwysterau mewn hyfforddi - rhai ohonynt wedi cynrychioli eu gwlad mewn chwaraeon. Byddai rhain yn medru dechreu clwb neu gynneu diddordeb mewn gemau yn eich pentref yn rhad ac am ddim. Gellir hefyd fenthyca adnoddau sydd eu hangen i gynnal gemau, hefyd am ddim.

Bwriad Menter Chwaraeon (a genfogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru) yw cael cymaint o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon fel bo pawb yn cael hwyl a chyfle i wneud ffrindiau.

Byddai Neuadd Bentref leol neu

eich Canolfan Gymuned yn medru cael ei haddasu i ateb eich gofynion ac mae deugain o bobl drwy Wynedd ar hyn o bryd yn gweithio i Fenter Chwaraeon yn trefnu chwaraeon i rhwng 1,500 - 2,000 o bobl yn wythnosol.

Does dim rhaid i chi ddod at Fenter Chwaraeon - mi ddaw ein cynrychiolydd atoch chi. Os ydych yn byw yn ardal Arfon, cysylltwch â Felinheli 670964 (estyniad 245) i drefnu i'n cynrychiolydd gyfarfod â chi gartref, yn eich mudiad, neu yn y gwaith.

Peidiwch a phetruso. Gall 1987 fod y flwyddyn a allai eich ail-gyflwyno i chwaraeon - beth bynnag fo'ch oed - gyda'r pwyslais ar wella safon eich bywyd a'ch corff.

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED LLANRUG OND PRYD?

Daeth clip o dudalenau chwaraeon y Caernarfon and Denbigh i'm sylw yn ystod y mis, drwy law Mr Cesil Williams, Llanrug, ac ynddo ceir adflaen o'r nosweithiau a'r Sadyrnau hynny yn yr Haf pan fyddai bryd yr holl ardal yn ymdroi o gwmpas cystadleuaeth pêl-droed Llanrug.

Ni wn os mai hon oedd yr unig gystadleuaeth o'i bath yn yr ardal, ac ni wn ychwaith yr union flwyddyn y cyfeiria'r adroddiad ati. 'Sgwn i os bydd eraill, yn ogystal â Cesil Williams, yn darllen y pwt yma, ac yn fodlon adrodd rhai o'u hatgofion wrth y Golygydd Chwaraeon. Byddai hen ddarluniau o'r timau a enwir o ddiddordeb hefyd.

Mae'n amlwg o'r adroddiad mai cystadleuaeth 'knock-out' ydoedd, ac i'r holl chwarae ddigwydd dros gyfnod o ddau neu dri mis. Timau o wahanol bonciau yn y chwarae oedd y mwyaf o'r cystadleuwyr, ond fe enwir hefyd dimau o Ddeiniolen, Clwt-y-bont, Glasgoed, Cwm-y-glo, Llanberis, Bethel, Seion, Rhostryfan, Crosville a thîm D M Motors, Llanrug.

Mae'r enwau a fabwysiadwyd gan y rhain yn hynod o ddiddorol. Pwy ar wyneb y ddaear oedd Bognor Hooligans, Mystery Squadron, New York Bloodhounds, Bulldogs, Happy Losers a Mills Tigerettes (cyfeiriad at Dr Mills, efallai, y bu nifer o erthyglau arno ar dudalen ôl yr Eco yn y gorffennol?) Enwyd eraill ar ôl timau blaenllaw cynghrair Lloegr: Arsenal, Sheffield Wednesday a Bolton Wanderers. Mae'n amlwg fod Caerdydd â'u dilynwyd yn y Gogledd, gan i Cardiff, Cardiff XI a Cardiff City gystadlu.

Gwn mai tîm o Gwm-y-glo oedd yr Old Comrades, gan fod Cesil a'i dad, H Parry Williams yn aelodau ohonno, y mab yn gôl geidwad a'r tad ar yr asgell dde. Mae canmol

mawr i 'Rhen Bar' fel y'i gelwid, ac fe'i disgrifir fel un o chwaraewyr gorau'r ardal yn ei ddydd. Yn wir, adroddir i wylwyr ofyn iddo yn ystod un o'r gemau os mai gwir ydoedd ei fod yn daid, atebodd yntau, gan bwyntio at aelod pen moel o'i dîm, "Ydw, a dacw un o'm meibion". Mae'n ymddangos fod cyfartaledd oed y tîm hwn dros ddeugain!

Yn anffodus, ni ddaw'r adroddiad a chanlyniadau'r gystadleuaeth ymhellach na'r rowndiau cyn-derfynol. Mae'n ymddangos fod yr Old Comrades wedi ennill eu lle yn y ffeinal, ac mai rhwng y Bulldogs a D M XI y chwaraewyd y 'semi' arall.

Oes rhywun sy'n cofio'r ffeinal. Pwy aeth a'r tlws? Ydi'r tlws neu gwpan ar gael o hyd yn yr ardal? Ym mhle chwaraeid y gemau?

Dewch, y rhai sy'n cofio, cysylltwch â'r Eco er mwyn i ni gael diwedd y stori. Oes gwir yn y stori mai'r ffi am gael cystadlu oedd un dywarchen i'w gosod ar y llain o flaen y gôl ple roedd cymaint o dreulio wedi bod? Paham, os gwir y chwedl, y bu'r Gymdeithas Bêl-droed yn ceisio rhoi terfyn ar y gystadleuaeth?

SGIWYR YSGOL BRYNREFAIL

Ar ôl gwyliau'r Nadolig aeth tri o ddisgyblion yr ysgol sy'n aelodau o dim sgïo Cymru i gystadlu yng Nghampwriaeth Alpaidd Prydeinig yn Fulpmes yn Awstria. Y disgyblion oedd Mathew Ingle a'i frawd Philip o Ddinorwig, a Michael Wroe o Waunfawr. Yn ogystal,

roedd cyn-ddisgybl o'r ysgol yn aelod o'r tîm, sef Brian Glass o Lanberis. Cawsant eu noddi gan 'Ski Blue Sky'. Yn ystod y Pasg bydd cyfle iddynt fynd i Cowmayeur yn yr Eidal i gystadlu unwaith eto, ond yn gyntaf mae'n rhaid iddynt gael eu noddi.

PYSGOTA

Adroddiad H P Hughes

Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfa a Llyfni, a gynhaliwyd yn yr Institiwt, Caernarfon, ar yr 11fed o Ragfyr, 1986, fe benderfynwyd ar y prisiau canlynol am y tymor 1987:

Oedolion am dymor llawn: £50

Aelod lleol os prynir cyn 1.3.87: £30

(hyn yn cynnwys y tâl stocio o £2)

Plant, tymor llawn (yr holl ddyfroedd): £10

(Fe'i seilir ar draean o ffi yr aelod lleol o hyn allan)

Oedolion - yr holl ddyfroedd am bythefnos: £30

Oedolion - yr holl ddyfroedd am wythnos: £20

Oedolion - yr holl ddyfroedd yn ddyddiol: £6

Oedolion - dyddiol (Llyn Padarn a Cwellyn yn unig): £3

Plant - dyddiol (Llyn Padarn a Cwellyn yn unig): £1.50

Etholwyd y canlynol yn Swyddogion y Gymdeithas am 1987:

Llywydd: Mr Aled Evans, gynt o Gwm y Glo;

Is-lywyddion Anrhydeddus: Mri A Huxley Jones; O Evans; A D Griffiths;

Cadeirydd: Mr M M Jones, Penllyn;

Is-gadeirydd: Mr John Allam, Llanrug;

Ysgrifennydd Anrhydeddus: Mr H P Hughes, Bethel;

Ysgrifennydd Cofnodion: Mr K Hughes, Caernarfon;

Trysorydd Anrhydeddus: Mr M Harris, Felinheli;

Aelodau'r Pwyllgor fydd:

A Roberts, Llanddeiniolen; Ll A M Jones, Caernarfon; H Jones, Groeslon; C Hope, Caernarfon; D Evans, Bontnewydd; C Hasson, Caernarfon, yn ogystal â dau aelod newydd, sef Kevin Lewis, Penygroes a Norman Dooley, Caernarfon.

Yr Ymddiriedolwyr fydd: Mr W Lloyd Hughes, Waunfawr; Dr Noel Roberts, Caernarfon a Dr R G Owen, Penygroes.

Yng nghystadlaethau 1986 daeth W H Owen yn gyntaf ac yn ail ar Padarn, a F B Jones ar Cwellyn.

Penderfynwyd at yr atodiadau a ganlyn i reolau a chyfansoddiadau y Gymdeithas. (a) Ple cyfeiria'r rheolau at y nifer mwyaf o bysgod y caniateir eu dal mewn diwrnod, golyga'r diwrnod hwnnw unrhyw gyfnod o 24 awr.

(b) Ni chaniateir dal mwy nag 8 pysgodyn mewn cyfnod o 24 awr (ag eithrio'r torgoch).

(c) 1. Dim ledgeirio o gwbl ar ôl cyfnos.

2. Ar adegau eraill, bydd yn rhaid i bob 'sgotwr, os bydd cais iddo wneud hynny gan 'sgotwr arall, ymadael â'i safle ymhen chwarter awr o dderbyn y cais.

TARO'R 'BULL' I GAEL SGANIWR



Capten tîm dartiau 'Bull' Deiniolen, O W Jones, yf cyflwyno siec i Clarice Roberts, Cynrychiolydd Pwyllgor Apêl y Sganiwr, Pentref Deiniolen. Y siec am £325 wedi ei gasglu gan y tîm wrth chwarae dartiau am ddeuddeg awr yn ddi-baid.

Mae'r hogiau wedi gwneud yn dda ers iddynt fynd yn ôl i'r gynghrair dair blynedd yn ôl, wedi cael dyrchafiad pob blwyddyn ac y flwyddyn yma yn yr adran gyntaf, yn ail o'r brig.

PÊL-DROED

Prin iawn fu'r gemau pêl-droed yn ystod y tair wythnos ddiwethaf, gan i'r rhew beri i'r meysydd fod yn rhy beryglus i chwarae arnynt, hyd at y Sadwrn diwethaf.

Bu cryn gynnwrf, er hynny, o gwmpas y Nadolig, a'r prif bwynt trafod ymysg cefnogwyr yr ardal fu'r ddwy gêm rhwng Llanberis a Llanrug yng Nghynghrair Gwynedd. Llanberis fu'n fuddugol yn y ddwy, a does dadl o gwbl mai yno y mae'r tîm cryfaf ar hyn o bryd.

Erys y posibilrwydd y byddant yn cyfarfod eto yn y rownd gyn-derfynol neu ffeinal Tarian Eryri. Y mae Llanberis yn weddol

sicr o fod yn bencampwyr eu grŵp hwy; ac os na fydd i'r Normal guro Llanerchymedd o 6 gôl i 0 neu well yn y grŵp arall, Llanrug fydd ar y brig. Byddai hyn yn golygu na fyddent yn cyfarfod yn y 'semi', gan mai'r cyntaf o bob grŵp sy'n chwarae'r ail yn y llall.

Mae'r ddau dîm yn parhau ar gopa tabl Cynghrair Gwynedd hefyd, a siawns ardderchog gan Llanberis i'w chipio. Curo fu eu hanes y Sadwrn diwethaf, o 3 gôl i 1 yn erbyn Llanerchymedd. Trechwyd CPGC o 4 gôl i 1 gan Llanrug, ond colli'n drwm eto, o 7 gôl i 1 wnaeth Bethel yn erbyn Dyffryn Nantlle.